Rhif Ymchwil Gymdeithasol: I'w gadarnhau
Dyddiad Cyhoeddi: I'w gadarnhau

# Ymchwil ar y galw a'r capasiti ar gyfer twristiaeth golff

## Croeso Cymru









Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol I'w gadarnhau: **978-1-80633-498-8**

Ymchwil ar y Galw a'r Capasiti ar gyfer Twristiaeth Golff

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight

Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:
Y Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Cyfeiriad e-bost: tourismresearch@gov.wales

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

ISBN: I'w gadarnhau: **978-1-80633-498-8**

21 Hydref 2025

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r holl gynnwys ar gael dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, ac eithrio lle nodir yn wahanol.

Trwydded Llywodraeth Agored

## Cynnwys

1. Crynodeb....................2
2. Cefndir a dull....................6
3. Clybiau golff....................9
4. Trefnwyr teithiau....................22
5. Defnyddwyr....................35
6. Goblygiadau i Croeso Cymru a phartneriaid eraill....................43

# 1. Crynodeb

## Clybiau Golff

### Mae twristiaeth yn rhan werthfawr o'r busnes

Mae ymwelwyr yn ffynhonnell refeniw hanfodol i glybiau golff. Yn ogystal â'r incwm a ddaw yn sgil ffioedd gwyrdd, mae ymwelwyr yn tueddu i wario mwy nag aelodau ar fwyd a diod; ac os oes gan y clwb lety, efallai y bydd ymwelwyr yn aros dros nos. Gellir defnyddio incwm a ddaw o du ymwelwyr i ailfuddsoddi yn y clwb, a gall incwm o'r fath helpu i gadw ffioedd aelodaeth ar lefel resymol.

Wedi dweud hyn, mae aelodau'n cynnig parhad i glybiau o dymor i dymor, yn enwedig trwy'r gaeaf. O'r herwydd, mae clybiau'n ymwybodol bod angen iddynt gydbwyso anghenion aelodau gydag anghenion ymwelwyr.

### Capasiti ar gyfer rhagor o ymwelwyr

Mae'r mwyafrif o glybiau'n awyddus i ddenu rhagor o ymwelwyr, oherwydd maent yn cydnabod pa mor bwysig yw'r refeniw a gynhyrchir ganddynt. Mae hyn yn cynnwys yr haf hyd yn oed, pan geir diwrnodau hirach a mwy o amser i chwarae golff.

Go brin y bydd modd i ymwelwyr chwarae ar ddyddiau Sadwrn, a hefyd mae ambell glwb yn neilltuo rhai boreau cynnar yn ystod yr wythnos i aelodau'n unig. Ar wahân i hyn, prin yw'r diwrnodau a'r amseroedd a neilltuir yn unswydd i aelodau.

### Marchnad y DU sydd â'r lle mwyaf blaenllaw; Ebrill-Hydref yw'r tymor

I'r mwyafrif o glybiau, mae bron pob un o'u hymwelwyr (dros 95%, fel arfer) yn dod o'r DU, yn bennaf o Loegr. Mae hyn yn wir hyd yn oed am glybiau uwch eu bri. Y prif dymor yw Ebrill-Hydref. Ychydig o ddiddordeb sydd gan glybiau a chwaraewyr fel ei gilydd mewn gwyliau golff yn ystod y gaeaf.

### Gweithio gyda threfnwyr teithiau

Mae grwpiau mawr neu bobl sy'n teithio o bell, yn enwedig o wledydd tramor, yn fwy tebygol o ddefnyddio trefnwyr teithiau. Po agosaf a pho leiaf yw'r grwpiau, po fwyaf tebygol ydynt o wneud trefniadau'n uniongyrchol. O'r herwydd, mae trefnwyr teithiau'n bwysig i glybiau sy'n dymuno bwrw'u rhwyd yn eang a denu nifer fawr o ymwelwyr.

### Menywod a Phencampwriaeth Agored AIG

Mae golff menywod yn farchnad sy'n tyfu, ac mae nifer o gyplau'n ymweld â chlybiau. Mae menywod sy'n chwarae golff yn 'arferol' bellach ac mae clybiau o'r farn eu bod yn cynnig popeth y mae golffwyr benywaidd ei angen.

Mae rhai clybiau'n defnyddio Pencampwriaeth Agored AIG i hyrwyddo golff i fenywod. Gwelant gyfleoedd da i farchnata'r etifeddiaeth hon ar lefel Cymru, gan fod golffwyr yn tueddu i ddangos diddordeb mewn meysydd golff pencampwriaethau am gryn dipyn o amser ar ôl y digwyddiad.

### Cynlluniau ar gyfer y dyfodol a gweithio gyda Croeso Cymru

Yn gyffredinol, mae clybiau'n awyddus iawn i gynyddu nifer eu hymwelwyr. Mae rhai clybiau'n cydnabod y potensial i gynyddu nifer eu hymwelwyr domestig yn fwy fyth hyd yn oed, tra mae eraill yn fwy brwd ynglŷn â'r posibilrwydd o ddenu marchnad weddol ddihysbydd o wledydd tramor.

Ym marn clybiau, mae Croeso Cymru'n bartner pwysig, yn enwedig os mai'r nod yw cyflawni twf o du gwledydd tramor. Mae rhai'n credu bod buddsoddiadau hyrwyddo wedi diflannu ar ôl Cwpan Ryder 2010. O ran denu ymwelwyr o'r tu allan i Gymru, mae clybiau'n tueddu i ystyried ei gilydd fel partneriaid yn hytrach na chystadleuwyr.

## Trefnwyr teithiau

### Galw da o du marchnad y DU, ond nid o wledydd tramor

Ar gyfer trefnwyr o'r DU, mae Cymru'n gwerthu'n ddibynadwy o dda. Mae'r ffaith bod modd cyrraedd Cymru'n rhwydd o sawl rhan o Loegr yn hollbwysig ar gyfer troi diddordeb yn archebion. Mae'r prif alw rhwng Ebrill a Hydref, rhwng dydd Gwener a dydd Sul; ond gan fod pobl nad ydynt yn aelodau yn cael anhawster i chwarae weithiau ar ddyddiau Sadwrn, mae'r galw'n ymestyn i ddiwrnodau'r wythnos hefyd.

Yn y farchnad dramor, nid yw Cymru'n llwyddo'n dda iawn o gymharu â'r Alban, Iwerddon a rhannau o Loegr. Nid yw defnyddwyr yn ymwybodol iawn o Gymru; ond ystyrir bod gan yr Alban ac Iwerddon gynnyrch golff cryf gyda hanes, meysydd golff da a llety moethus yn y lleoedd iawn.

### Ond mae Cymru'n cynnig gwell gwerth o lawer na'r Alban ac Iwerddon

'Pwynt gwerthu unigryw' presennol Cymru, o gymharu â'r Alban ac Iwerddon, yw gwerth am arian. Mae ffioedd gwyrdd yn yr Alban ac Iwerddon wedi cynyddu'n fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf (ar ôl Covid), felly mae Cymru'n unigryw erbyn hyn o ran cynnig gwerth am arian.

Mae cryfderau hollbwysig eraill sydd gan Gymru yn cynnwys llai o dorfeydd, ynghyd â golygfeydd a phentrefi hardd gyda phobl leol gyfeillgar. Mae hyn oll yn cynnig profiad 'lleol' dilys a hamddenol i'r rhai sy'n ymweld â'r wlad.

## Rhwystrau hollbwysig sy’n wynebu Cymru

Yn ogystal ag ymwybyddiaeth gyfyngedig ymhlith defnyddwyr, nid yw trefnwyr teithiau’n ymwybodol iawn o gyflenwyr a leolir yng Nghymru, megis darparwyr llety a thrafnidiaeth, na’r ffordd orau o gyrraedd y gyrchfan o wledydd tramor.

Mae’r farn yn gymysg ynglŷn â’r llety. Ni cheir unrhyw broblemau o gwbl ym marn rhai, yn enwedig ar gyfer marchnad y DU; ond mae’r capasiti ar gyfer grwpiau mwy a grwpiau sy’n chwilio am foethusrwydd eithaf ar gyfer ymwelwyr o America yn gallu bod yn broblem. Rhwystr arall i farchnad America yw nifer cyfyngedig y meysydd golff blaenllaw i lenwi tripiau hwy.

## Menywod a Phencampwriaeth Agored AIG

Erbyn hyn, mae menywod yn cyfateb i gyfran helaeth o fusnes trefnwyr teithiau, yn enwedig trefnwyr o Sgandinafia a’r Almaen. Pur anaml y dônt ar draws rhwystrau wrth chwarae golff mwyach, megis cyfleusterau newid annigonol, yng Nghymru nac yn unman arall.

Wrth farchnata ar gyfer menywod, mae elfennau nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â golff yn hynod bwysig – yn cynnwys pethau fel ansawdd y profiad bwyta ac ychwanegiadau posibl, fel sba a the prynhawn.

Mae trefnwyr teithiau’n teimlo’n gadarnhaol ynglŷn â chynnal y Bencampwriaeth Agored i Fenywod yng Nghymru. Ond dywed rhai bod angen i Gymru ddenu’r Bencampwriaeth Agored (i ddynion) er mwyn dangos bod y wlad yn gyrchfan hollbwysig i golff.

## Cynlluniau ar gyfer y dyfodol yng Nghymru

Yn gyffredinol, mae trefnwyr teithiau’n fodlon ystyried cynnwys Cymru (i raddau mwy), ond rhaid i’r cymhelliant ddod o du Croeso Cymru, yn enwedig os ydym am weld busnes o wledydd tramor yn tyfu. Yn syml, mae trefnwyr yn fodlon parhau i werthu cyrchfannau y ceir galw amdanynt ar hyn o bryd.

Yn ddelfrydol, byddai trefnwyr teithiau’n dymuno cael gwahoddiad i fynychu sioeau masnach golff a/neu deithiau ymgyfarwyddo yng Nghymru, er mwyn iddynt allu cyfarfod â chyflenwyr a dysgu rhagor am y gyrchfan. Byddai hyn yn meithrin eu hyder i werthu’r wlad.

# Defnyddwyr

## Adborth cadarnhaol iawn gan ymwelwyr ynglŷn â’r profiadau a gawsant o Gymru

Mae ychydig dros hanner (56%) y defnyddwyr wedi bod ar wyliau golff yng Nghymru. Mae’r tebygolrwydd o ymweld â’r wlad yn cyfateb yn gryf i’r agosrwydd at Gymru.

Mae oddeutu chwarter (27%) y rhai a fu ar wyliau golff yng Nghymru yn dweud bod y profiad yn ‘llawer mwy pleserus’ na golff mewn cyrchfannau eraill, ac mae 28% yn ychwaneg yn dweud bod y profiad ‘rywfaint yn fwy pleserus’. Dim ond lleiafrif bach (5%) a ddywedodd fod golff yng Nghymru yn ‘llai pleserus’.

Mae golffwyr sy’n ymweld â Chymru yn gwirioni ar y golygfeydd godidog, sef mynyddoedd a/neu arfordiroedd hardd. Mae elfennau cadarnhaol hollbwysig eraill sy’n perthyn i Gymru, yn hytrach nag i gyrchfannau golff eraill, yn cynnwys meysydd golff a gaiff eu cynnal a’u cadw’n dda ar gyfraddau cystadleuol iawn, diffyg torfeydd, mynediad rhwydd a phobl hyfryd.

## Mae canfyddiad o dywydd gwael neu dywydd anwadal yn elfen negyddol hollbwysig

Ymhlith defnyddwyr o Loegr, ymddengys fod Cymru’n enwog am ei thywydd glawog. Ond yn anffodus, mae adborth sy’n sôn am deithiau golff i Gymru a ddifethwyd oherwydd y tywydd yn golygu bod hyn yn rhwystr gwirioneddol yn hytrach nag yn ‘ganfyddiad’ llwyr.

Rhwystr hollbwysig arall o ran golff yng Nghymru yw diffyg ymwybyddiaeth ymhlith pobl nad ydynt wedi ymweld â’r wlad – mae hyn yn golygu bod y diddordeb yn llugoer yn aml, gan nad yw pobl yn gwybod beth i’w ddisgwyl.

Mae nifer o golffwyr – sef rhai sy’n ymweld â Chymru a rhai nad ydynt yn ymwelwyr – o’r farn fod yr arlwy golff yng Nghymru yn debyg i’r arlwy a gynigir gan gyrchfannau golff eraill ym Mhrydain.

## Menywod

Gallai nifer o ddatblygiadau olygu y byddai gwyliau golff yn fwy deniadol i fenywod. Yr elfen y sonnir amdani’n fwyaf cyffredin yw ‘cyfuno golff â gwyliau sba’ (cafwyd yr ateb hwn gan 68% o fenywod ar ôl anogaeth).

# 2. Cefndir a dull

## Pam y comisiynwyd y gwaith ymchwil hwn?

Mae Croeso Cymru wedi pennu cynhyrchion twristiaeth diddordeb arbennig a chanddynt botensial ar gyfer twf yn y dyfodol. Yn hyn o beth, cyfeirir yn benodol at golff yn strategaeth Croeso Cymru, sef [Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025](). Mae golff yn cyd-fynd ag arlwy craidd Cymru, mae'n cydweddu â gweledigaeth y brand (yn arbennig, gweithgareddau a thirweddau naturiol) ac mae'n gwella llesiant cymunedau preswyl Cymru.

Hefyd, ystyrir bod gan golff botensial da yn ystod tymhorau ysgwydd – byddai hyn yn cyd-fynd yn dda â nodau Croeso Cymru i gynyddu twristiaeth y tu allan i dymor prysur yr haf.

Yn 2023, roedd 32% (2.57m) o'r teithiau domestig i Gymru yn cynnwys gweithgareddau hamdden awyr agored a/neu chwaraeon – yn cynnwys mwy na 110,000 o deithiau i chwarae golff, gyda gwariant cyfartalog pob taith yn £332. Ymhellach, cafwyd bron i 100,000 o deithiau dydd yn ymwneud â golff, gyda gwariant dyddiol cyfartalog o £76, sef un o'r lefelau gwariant uchaf ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored.

Rhwng 31 Gorffennaf a 3 Awst, cynhaliodd Clwb Golff Brenhinol Porthcawl Bencampwriaeth Agored Menywod AIG. Llwyddodd hyn i gynnig cyfle i arddangos Cymru ar gyfer twristiaeth golff, yn enwedig i gynulleidfa fenywaidd.

Penderfynodd Croeso Cymru gomisiynu Strategic Research and Insight (SRI) – sef asiantaeth ymchwil annibynnol a leolir yng Nghaerdydd – i fynd i'r afael â gwaith ymchwil gyda chlybiau golff Cymru, trefnwyr teithiau a defnyddwyr. Y prif amcanion yw deall y canlynol:

- Y galw a'r capasiti ar gyfer twristiaeth golff yng Nghymru
- Cryfderau a gwendidau'r arlwy cyfredol mewn perthynas â thwristiaeth golff
- Rhwystrau a chyfleoedd i ddatblygu twristiaeth golff

## Sut y cynhaliwyd y gwaith ymchwil?

Cynhaliwyd ymchwil sylfaenol mewn tri cham:

- Cyfweliadau ansoddol manwl gyda chlybiau golff yng Nghymru
- Cyfweliadau ansoddol manwl gyda threfnwyr teithiau o'r DU ac o wledydd tramor
- Arolwg panel meintiol gyda golffwyr ym Mhrydain ac Iwerddon

Isod, trafodir yr holl gamau'n fanylach.

## Cyfweliadau ansoddol gyda chlybiau golff

Pennodd Croeso Cymru glybiau golff hollbwysig ar gyfer cysylltu â nhw i gynnal cyfweliadau manwl. Gwyddys fod y clybiau hyn yn denu twristiaeth golff i ryw raddau o leiaf.

Mae cyfweliadau manwl yn ffurf ar ymchwil ansoddol. Maent yn llifo'n rhwydd ac ni ddilynir cwestiynau a sgriptiwyd yn gaeth, yn wahanol i holiaduron a ddefnyddir mewn ymchwil feintiol. Diben y cyfweliadau hyn yw archwilio dyfnder yn hytrach nag ehangder. Gall y cyfweliadau bara oddeutu hanner awr. Mae SRI wedi cynnal 16 o gyfweliadau manwl gyda chlybiau golff ledled Cymru.

Yn adran 3, trafodir adborth y rhanddeiliaid hollbwysig hyn yn ôl thema. Mae canllawiau pwnc ar gael ar gais.

## Cyfweliadau ansoddol gyda threfnwyr teithiau

Darparodd Croeso Cymru gronfa ddata o drefnwyr teithiau golff o'r DU ac o wledydd tramor. Mae'r trefnwyr yn amrywio o ran y graddau y maent yn cynnwys teithiau i Gymru – hynny yw, mae rhai ohonynt yn cynnwys nifer helaeth o deithiau i Gymru, ond nid yw rhai ohonynt yn cynnwys unrhyw deithiau o gwbl i Gymru.

Er mai'r wlad y lleolir y trefnydd ynddi yw prif farchnad y trefnydd hwnnw fel arfer, mae'r mwyafrif o drefnwyr yn gwerthu teithiau i gwsmeriaid sy'n byw mewn gwledydd eraill hefyd. Gallai'r cyrchfannau a werthant fod yn unrhyw le.

Mae SRI wedi cynnal 19 o gyfweliadau manwl gyda threfnwyr teithiau – gweler isod ym mha wledydd y lleolir y trefnwyr hyn, ynghyd â'u niferoedd:

- Y DU: 5
- Unol Daleithiau America: 5
- Sgandinafia: 2
- Yr Almaen: 2
- Yr Iseldiroedd: 2
- Canada: 1
- Ffrainc: 1
- Gweriniaeth Iwerddon: 1

Yn adran 4, trafodir adborth y rhanddeiliaid hollbwysig hyn yn ôl thema. Mae canllawiau pwnc ar gael ar gais.

## Y cam meintiol

Yn dilyn y camau ansoddol, cynhaliodd SRI arolwg panel ar-lein gyda 525 o golffwyr ym Mhrydain ac Iwerddon. Cafwyd gafael ar y sampl trwy gyfrwng y darparwr Cint. Mae ymchwil feintiol yn mesur ehangder trwy ddefnyddio samplau mawr, ac mae pwrpas ymchwil feintiol yn wahanol i bwrpas ymchwil ansoddol (sy'n archwilio adborth yn fanylach).

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr arolwg:

- Roedd yn rhaid i’r ymatebwyr fod wedi bod ar wyliau golff yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf
- Roedd yn rhaid i’r ymatebwyr ystyried Cymru ar gyfer gwyliau golff

Roedd y sampl o banelwyr ar-lein a wahoddwyd i gymryd rhan yn yr arolwg yn cynrychioli poblogaethau Prydain ac Iwerddon yn ôl oedran, rhywedd a rhanbarth, ond caniatawyd i’r sampl cymwys chwynnu’n naturiol er mwyn adlewyrchu proffil cwsmeriaid sy’n cymryd gwyliau golff ac a fyddai’n ystyried gwneud hynny yng Nghymru. Isod, dangosir y sampl cymwys terfynol, sef 525 o ymatebwyr:

**Tabl 1: sampl ymchwil feintiol yn ôl rhanbarth, oedran a rhywedd**

| Rhanbarth | Maint y sampl | Grŵp oedran | Maint y sampl | Rhywedd | Maint y sampl |
|---|---|---|---|---|---|
| Lloegr | 418 | Dan 35 | 116 | Gwrywaidd | 392 |
| Yr Alban | 47 | 35 i 44 | 79 | Benywaidd | 133 |
| Iwerddon | 41 | 45 i 54 | 113 | | |
| Cymru | 19 | 55 i 64 | 109 | | |
| | | Dros 65 | 108 | | |

Golffwyr o Loegr yw’r elfen fwyaf blaenllaw yn y farchnad ar gyfer gwyliau golff yng Nghymru. Ceir rhychwant da o oedrannau, ac mae golffwyr benywaidd yn cyfateb i 25% o’r farchnad.

Trafodir y canfyddiadau meintiol yn adran 5. Mae’r holiadur ar gael ar gais.

# 3. Clybiau golff

Seilir yr adran hon ar 16 o gyfweliadau ansoddol gyda chlybiau golff y gŵyr Croeso Cymru eu bod yn denu twristiaeth golff i ryw raddau o leiaf.

## Pa mor bwysig yw twristiaeth golff i'r clybiau?

### Rhan werthfawr o'r busnes

Dywedodd ymron yr holl glybiau eu bod yn gwerthfawrogi cwsmeriaeth ymwelwyr. Er bod nifer y rowndiau a chwaraeir gan aelodau yn fwy niferus fel arfer na nifer y rowndiau a chwaraeir gan ymwelwyr dros flwyddyn gyfan, mae ymwelwyr yn ffynhonnell refeniw hollbwysig. Yn ogystal â'r incwm a ddaw yn sgil ffioedd gwyrdd, mae ymwelwyr yn tueddu i wario mwy nag aelodau ar fwyd a diod; ac os oes gan y clwb lety, efallai y bydd ymwelwyr yn aros dros nos. Gellir defnyddio incwm a ddaw o du ymwelwyr i ailfuddsoddi yn y clwb, a gall incwm o'r fath helpu i gadw ffioedd aelodaeth ar lefel resymol.

> "Mae ymwelwyr yn talu ffi werdd, yn talu am fygi, ystafell wely, swper, sawl peint o gwrw y tu ôl i'r bar; ond nid yw aelodau'n gwario hanner cymaint."

> "Nid yw'r ffioedd aelodaeth yn talu am ein costau, felly rydym yn defnyddio ymwelwyr i gynyddu'r incwm. Oherwydd hyn, mae twristiaeth golff yn bwysig iawn i ni. Mae'n ein galluogi i ailfuddsoddi yn y clwb a chadw tanysgrifiadau'n isel i aelodau. Hefyd, mae'r ailfuddsoddi hwn o fudd i aelodau."

Gan ddibynnu ar eu lleoliad, gall clybiau golff fod yn ffynhonnell bwysig ar gyfer twristiaeth i fusnesau lleol eraill yn ystod y tymor ysgwydd.

> "Yn yr haf, mae ymwelwyr yn dod i'n tref beth bynnag er mwyn mynd i'r traeth. Ond yn ystod y tymhorau ysgwydd, mae busnesau yn y pentref yn sylwi os nad yw'r maes golff yn llwyddo'n dda."

### Ond ni ellir esgeuluso anghenion yr aelodau

Er bod ymwelwyr yn cael eu trysori, ni all y clybiau ddibynnu ar eu hincwm drwy gydol y flwyddyn. O'r herwydd, mae aelodau'n hynod bwysig gan eu bod yn cynnig parhad i glybiau o dymor i dymor, yn enwedig trwy fisoedd y gaeaf. O'r herwydd, mae clybiau'n ymwybodol bod angen iddynt gydbwyso anghenion aelodau gydag anghenion ymwelwyr. Mae'r mwyafrif o glybiau o'r farn eu bod yn llwyddo'n dda yn hyn o beth, ond nid yw bob amser yn hawdd.

> "Fel clwb aelodau preifat, ein blaenoriaeth yw sicrhau na fydd ein haelodau'n cael unrhyw anhawster i ddefnyddio'r maes golff."

> "Gwaith y clwb yw addysgu'r aelodau bod yn rhaid inni gynnig profiad cystal i'r ymwelwyr. Mae'n bwysig i'r ymwelwyr deimlo eu bod yn cael croeso. Arian

> gan ymwelwyr sy'n talu am y tŷ clwb hyfryd y mae ein haelodau'n eistedd ynddo."

## Faint o gapasiti sydd gan glybiau ar gyfer ymwelwyr?

### Yn fodlon derbyn ychwaneg o ymwelwyr

Mae'r mwyafrif o glybiau'n awyddus i ddenu ychwaneg o ymwelwyr, oherwydd maent yn cydnabod pa mor bwysig yw'r refeniw a gynhyrchir gan yr ymwelwyr hynny. Mae hyn yn cynnwys yr haf hyd yn oed, pan geir diwrnodau hirach a mwy o amser i chwarae golff.

Os oes gan glybiau nifer helaeth o aelodau, yna bydd ganddynt lai o gapasiti ar gyfer ymwelwyr yn y gaeaf, pan geir diwrnodau byrrach a llai o amser i chwarae golff. Ond nid ydynt yn disgwyl cael ymwelwyr yn ystod y gaeaf, beth bynnag.

> "Nid oes gennym gymaint o gapasiti yn ystod misoedd y gaeaf oherwydd diffyg golau dydd, a rhaid inni gadw rhywfaint o'r golau dydd hwnnw i'n haelodau. Ond hawdd iawn fyddai darparu ar gyfer ychwaneg o ymwelwyr yn ystod yr haf."

Yn achos clybiau sy'n dibynnu mwy ar incwm o du ymwelwyr yn hytrach nag incwm o du aelodau, maent yn fwy tebygol o deimlo effaith y gostyngiad yn y busnes yn ystod y gaeaf ar ôl i'r ymwelwyr roi'r gorau i ddod draw.

### Yr amseroedd mwyaf/lleiaf tebygol pan all ymwelwyr chwarae

Go brin y bydd modd i ymwelwyr chwarae ar ddyddiau Sadwrn, a hefyd mae ambell glwb yn neilltuo rhai boreau (yn enwedig yn gynnar yn y bore) i aelodau. Ar wahân i hyn, prin yw'r diwrnodau a'r amseroedd a neilltuir yn unswydd i aelodau, oherwydd mae clybiau'n gwerthfawrogi'r incwm a ddaw yn sgil ymwelwyr. Mae rhai clybiau'n arbennig o awyddus i ddenu ychwaneg o ymwelwyr yn ystod diwrnodau'r wythnos.

> "Caiff boreau dydd Mercher a dydd Sadwrn eu neilltuo i aelodau. Mae'r penwythnosau'n brysurach o lawer; ond pur anaml y byddwn y brin o gapasiti ar gyfer ymwelwyr yn ystod diwrnodau'r wythnos, hyd yn oed yn ystod tymor prysur yr haf."

Mae rhai clybiau eraill yn pennu bod dydd Sul yn ddiwrnod yr hoffent ei lenwi gydag ymwelwyr, ochr yn ochr â rhai diwrnodau penodol yn ystod yr wythnos.

> "Rydym wedi pennu diwrnodau allweddol pan nad yw ein haelodau'n defnyddio rhyw lawer ar y clwb – sef dydd Iau a dydd Sul. Dyma'r diwrnodau rydym yn ceisio annog ymwelwyr i ddod i'r clwb."

Mae'r tebygolrwydd y bydd ymwelwyr yn dod o hyd i gyfle i chwarae golff ar y diwrnod y dymunant chwarae yn gallu dibynnu ar eu hyblygrwydd. Er enghraifft, a yw grwpiau'n dymuno cael amseroedd chwarae agos at ei gilydd?



Clwb Golff Brenhinol Dewi Sant, Harlech

# O ble y daw ymwelwyr golff?

## Marchnad y DU yw'r farchnad fwyaf blaenllaw

I'r mwyafrif o glybiau, mae bron pob un o'u hymwelwyr (dros 95%, fel arfer) yn dod o'r DU, yn bennaf o Loegr. Mae hyn yn wir hyd yn oed am glybiau uwch eu bri. Mae coridor yr M4 yn farchnad gref ar gyfer clybiau De Cymru, ac mae Gogledd Orllewin Lloegr yn bwysig i glybiau Gogledd Cymru. Mae Gorllewin Canolbarth Lloegr yn bwysig i Ogledd a De Cymru.

> "Mae mwy na 98% o'n hymwelwyr yn dod o Brydain. Mae 1% yn dod o Ewrop [oddi allan i Brydain] a llai nag 1% o weddill y byd."

> "Mae marchnadoedd tramor yn cyfateb i lai nag 1% o'n hymwelwyr."

Mae rhai clybiau, yn fwy nag eraill, o'r farn mai cyrchfannau tramor yw eu prif gystadleuaeth ar gyfer marchnad y DU. Ceir safbwyntiau gwahanol ynglŷn â chryfderau presennol y gystadleuaeth dramor. Mae rhai o'r farn bod y gystadleuaeth yn gref, gan gynnig gwerth da am arian a gwell siawns o gael tywydd braf. Mae eraill o'r farn bod y cynnydd yn y galw am deithiau tramor (a welwyd ar ôl Covid) wedi gwastatáu erbyn hyn.

> "2025 yw ein blwyddyn fwyaf llwyddiannus hyd yn hyn. Mae'r cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn dymuno mynd i Sbaen a Phortiwgal (ar ôl Covid) wedi lleihau. Cewch ragor am eich arian trwy aros yn y DU."

## Mae golffwyr tramor yn debygol o ddod o Ewrop

Os daw ymwelwyr o wledydd tramor, maent yn debygol o ddod o Ewrop. Prin iawn yw nifer yr Americanwyr sy'n chwarae golff ar feysydd golff yng Nghymru, ac eithrio yng Nghlwb

Golff Brenhinol Porthcawl, er gwaethaf y cyhoeddusrwydd a gafodd Cymru yn sgil cynnal Cwpan Ryder 2010 yn y Celtic Manor.

> “Ymwelwyr domestig yw 95% a mwy o’n hymwelwyr. Roeddem yn arfer cael ymwelwyr tramor cyn y Cwpan Ryder, ond mae hynny wedi dod i ben.”

# Pryd y daw ymwelwyr golff i Gymru?

## Rhwng Ebrill a Hydref

Ebrill i Hydref yw’r tymor ar gyfer twristiaeth golff yng Nghymru. Gall y tywydd fod yn annymunol yn ystod y gaeaf, ac o dro i dro nid oes modd chwarae ar feysydd golff. Er bod modd i golffwyr wisgo dillad addas gogyfer tywydd gwlyb, nid dyna’r math o brofiad golffio y maent yn chwilio amdano. Yn achos golffwyr sy’n dymuno mynd ar drip y tu allan i’r tymor hwn, efallai y byddant yn troi eu golygon at gyrchfannau cynhesach yn hytrach na dewis y DU.

> “Mae chwaraewyr yn dymuno mwynhau bwyta ac yfed y tu allan i’r tŷ clwb neu’r tŷ hanner ffordd. Mae chwarae mewn dillad glaw, heb allu gweld yn dda iawn trwy’r glaw, yn amharu braidd ar y profiad hwnnw.”

## Nid yw’r mwyafrif o glybiau’n dymuno targedu ymwelwyr ar gyfer y gaeaf beth bynnag

Yn ogystal â’r ffaith bod diwrnodau’r gaeaf yn fyrrach, a bod y capasiti’n fwy cyfyngedig yn sgil hynny, gwaith anodd fyddai ceisio denu ymwelwyr yn ystod y gaeaf, ac efallai na fyddai’r maes golff yn edrych ar ei orau. O’r herwydd, mae clybiau’n fodlon i dymor yr ymwelwyr barhau i ddigwydd rhwng Ebrill a Hydref.

> “Mae pobl yn gwybod bod Cymru’n wahanol i Bortiwgal. Rydym yn cael glaw yng Nghymru.”

> “Rhwng Hydref a Mawrth, nid ydym yn hyrwyddo’r maes golff i ymwelwyr oherwydd y tywydd gwael yn ystod y cyfnod hwn, a hefyd oherwydd y nifer fawr o drefniadau a gaiff eu canslo ar yr unfed awr ar ddeg. Yn hytrach, rydym yn canolbwyntio ar yr aelodau.”

# Beth yw rôl trefnwyr teithiau?

## Archebion trwy gyfrwng trefnwyr teithiau

Mae grwpiau mawr neu bobl sy’n teithio o bell, yn enwedig o wledydd tramor, yn fwy tebygol o ddefnyddio trefnwyr teithiau. Po agosaf a pho leiaf yw’r grwpiau, po fwyaf tebygol ydynt o wneud trefniadau’n uniongyrchol. O’r herwydd, mae trefnwyr teithiau’n bwysig i glybiau sy’n dymuno bwrw’u rhwyd yn eang a denu nifer fawr o ymwelwyr.

> “Os ydynt yn archebu fel grŵp mawr ac yn mynd ar drip, maent yn tueddu i ddefnyddio trefnydd teithiau. Os ydynt yn dod yma am ddeuddydd ac yn aros un noson, maent yn tueddu i wneud trefniadau gyda ni’n uniongyrchol.”

> “Daw’r mwyafrif o’r archebion Ewropeaidd trwy gyfrwng trefnwyr teithiau.”

> “Mae trefnwyr teithiau yn ein helpu i gael grwpiau mwy sy’n cynnwys 8-12 o bobl, neu weithiau hyd at 24.”

Mae’r cydbwysedd cyfredol rhwng archebion a wneir trwy gyfrwng trefnwyr teithiau ar y naill law ac archebion a wneir yn uniongyrchol ar y llaw arall yn amrywio o glwb i glwb; ond yn gyffredinol, mae’r rhaniad oddeutu 50/50.

> “I ni, mae’r rhaniad oddeutu 50/50 rhwng archebion a wneir yn uniongyrchol gyda’r clwb ac archebion a wneir trwy ddefnyddio trydydd parti.”

## Profiadau o weithio gyda threfnwyr teithiau

Y fantais hollbwysig o ran gweithio gyda threfnwyr teithiau yw’r ffaith y gellir denu grwpiau mwy ac estyn y cyrhaeddiad, yn enwedig i wledydd tramor. Yn gyffredinol, ceir cydberthnasau gweithio da rhwng trefnwyr teithiau a chlybiau, ac mae’r naill ochr yn deall anghenion yr ochr arall y bur dda.

> “Rydw i wedi gweithio gyda Countrywide Golf Holidays, Wales Golf Holidays a Welsh Golf Breaks ers blynyddoedd ac rydym wedi creu cydberthnasau da gyda nhw.”

Mae barn rhai clybiau ynglŷn â threfnwyr teithiau yn gallu amrywio. Ymddengys fod clybiau’n ymddiried yn rhai o’r trefnwyr a’u bod yn dymuno gweithio gyda nhw, ond ymddengys fod y gwrthwyneb yn wir hefyd yn achos trefnwyr eraill. Mae clybiau’n dewis y trefnwyr y dymunant weithio gyda nhw.

> “Mae rhai yn well nag eraill. Rydym wedi rhoi’r gorau i weithio gydag un, a oedd yn tueddu i drefnu penwythnosau ‘stag’. Roedd yn fwy o drafferth nag o werth yn y diwedd.”

Un anfantais yw’r ffaith nad yw rhai trefnwyr teithiau (yn enwedig rhai mawr) yn rhoi tâl i glybiau ymlaen llaw, ac mewn ambell achos mae clybiau’n gorfod mynd ar drywydd anfonebau gorddyledus. Hefyd, mae’r cyfraddau’n is, gan fod trefnwyr teithiau’n disgwyl cael gostyngiadau wrth archebu ar gyfer grwpiau mawr.

> “Fel arfer, byddem yn disgwyl cael yr arian fis ymlaen llaw gan y trefnydd teithiau, ond gyda dau o’r cwmnïau mawr rydych yn gorfod eu hanfonebu a mynd ar drywydd y taliad.”

O’r herwydd, wrth weithio gyda threfnwyr teithiau, rhaid ystyried nifer yr archebion yn erbyn y llif arian a maint yr elw. Yn gyffredinol, mae clybiau o’r farn ei bod yn bwysig cael cymysgedd gweddol gytbwys rhwng archebion a wneir gan drefnwyr teithiau ar y naill law ac archebion a wneir yn uniongyrchol ar y llaw arall.



Celtic Manor, Casnewydd

# Sut y mae pethau'n gweithio o ran llety?

## Nid yw'r mwyafrif o glybiau o'r farn bod llety yn broblem fawr

Mae'r mwyafrif o glybiau'n cydweithio gyda chyflenwyr llety lleol trwy gyfeirio gwesteion neu trwy gytuno ar fargeinion. Gall y llety dan sylw amrywio'n fawr; a chan fod ymron yr holl ymwelwyr yn dod o'r DU a chan eu bod, felly, yn gyfarwydd â'r hyn y gallant ei ddisgwyl, credir bod y ddarpariaeth gyfredol yn ddigonol.

> "Pur anaml y clywn fod pobl yn cael anhawster i ddod o hyd i rywle i aros. Mae yna nifer fawr o ddarparwyr llety yn yr ardal – pa un a ydych yn sôn am lety gwyliau neu westai."

## Mae rhai clybiau'n cydweithio gyda'i gilydd i ddarparu llety

Ceir rhai 'cyrchfannau' golff yng Nghymru – h.y. mae ganddynt nifer fawr o ystafelloedd gwely ar y safle, yn ogystal â chyfleusterau ar gyfer gwyliau hamdden. Mewn ambell achos, maent yn cydweithio gyda chlybiau golff yn y rhanbarth (hynny yw, clybiau nad ydynt yn gyrchfannau), ac mae golffwyr yn aros dros nos yn y gyrchfan ond yn chwarae golff mewn clybiau eraill hefyd. Mae clybiau golff sy'n 'gyrchfannau' a chlybiau golff 'nad ydynt yn gyrchfannau' yn tueddu i ystyried ei gilydd fel partneriaid yn hytrach na chystadleuwyr, gan fod yr arlwy'n wahanol.

> "Rydym yn cynnal trafodaethau gyda chyrchfan gerllaw i drefnu bod rhai o'r ystafelloedd ar gael i golffwyr sy'n chwarae gyda ni. Mae cydweithio'n bwysig."

## Gall grwpiau mawr ac Americanwyr esgor ar broblemau

Efallai y bydd problemau o ran capasiti yn berthnasol i grwpiau mawr o golffwyr mewn ardaloedd nad ydynt o fewn cyrraedd dinasoedd a chyrchfannau mawr.

Yn achos y busnes a ddaw i ran Cymru ar hyn o bryd, cyfran fechan yn unig o'r busnes hwnnw a ddaw o du Americanwyr; ond pe bai Americanwyr yn cael eu targedu i raddau mwy, efallai y byddai diffyg llety moethus o'r radd flaenaf yng Nghymru yn gallu bod yn rhwystr.

> "Mae'r farchnad Americanaidd yn chwilio am lety 6 seren."

# Pa gyfleoedd sydd ar gael i golff menywod?

## Caiff ei 'normaleiddio' i raddau mwy bellach

Mae golff menywod yn farchnad sy'n tyfu, ac mae nifer o gyplau'n ymweld â chlybiau. Mae menywod sy'n chwarae golff yn 'arferol' bellach ac mae clybiau o'r farn eu bod yn cynnig popeth y mae golffwyr benywaidd ei angen i chwarae'r gêm, heb iddynt gael eu heithrio.

Erbyn hyn, ceir cyfleusterau newid gwell i fenywod, ac mae gan rai siopau mewn clybiau golff fwy o eitemau ar gyfer menywod, fel dillad a ffyn golff i fenywod, sy'n fyrrach ac yn ysgafnach. Roedd diffyg toiledau ar safleoedd yn arfer bod yn broblem mewn nifer o glybiau golff, ond caiff y broblem hon ei chydnabod yn fwyfwy y dyddiau hyn ac mae clybiau'n mynd ati i ddelio â hi.

> "Mae chwaraewyr benywaidd o Sgandinafia yn tueddu i ddod draw fel cyplau. Mae'r farchnad honno'n esgor ar fwy o golffwyr benywaidd nag unrhyw farchnad arall."

## Cydbwysedd rhwng darparu ar gyfer menywod heb greu 'problem' o'r peth

Er bod clybiau'n awyddus i ddarparu ar gyfer golffwyr benywaidd, ceir cydbwysedd rhwng teilwra darpariaethau ar gyfer menywod ar y naill law ac osgoi bod yn nawddoglyd ar y llaw arall. Er enghraifft, mae gan rai meysydd golff safleoedd taro ar gyfer dynion a safleoedd taro gwahanol ar gyfer menywod, sy'n gwneud y twll dipyn yn fyrrach. Ond mae rhai clybiau'n sylweddoli nad yw golffwyr benywaidd, o angenrheidrwydd, yn dymuno cael eu trin yn wahanol.

> "Nid oes gennym safleoedd taro gwahanol ar gyfer dynion a menywod erbyn hyn. Hefyd, rydym wedi cael ein capten benywaidd cyntaf [yn hytrach na chapteiniaid ar wahân ar gyfer dynion a menywod]."

## Gall meysydd golff anos ddigalonni rhai menywod

Mae anhawster meysydd golff yn amrywio. Efallai y bydd meysydd golff anodd yn digalonni rhai golffwyr benywaidd llai profiadol.

> "Mae ein maes golff yn enwog am fod yn eithaf anodd, ac ymddengys fod hyn yn cadw chwaraewyr benywaidd draw."

## Pencampwriaeth Agored Menywod AIG

Rhwng 30 Gorffennaf a 3 Awst, cynhaliwyd Pencampwriaeth Agored Menywod AIG yng Nghlwb Golff Brenhinol Porthcawl. Mae rhai clybiau wedi/yn defnyddio'r twrnamaint i hyrwyddo golff i fenywod. Gwelant gyfleoedd da i farchnata'r etifeddiaeth hon ar lefel Cymru, gan fod golffwyr yn tueddu i ddangos diddordeb mewn meysydd golff pencampwriaethau am gryn dipyn o amser ar ôl y digwyddiad.

> "Mae'n wych o beth bod Cymru'n cael sylw yn sgil y digwyddiad pwysig hwn. Yr effaith ganlyniadol yw y bydd pobl yn dymuno chwarae golff yng Nghymru. Mae'n ategu'r ffaith bod Cymru'n deall golff i'r dim, yn hytrach na chredu nad yw Cymru'n gyrchfan ar gyfer golffio."

Hefyd, mae rhai clybiau'n gweld cyfle i wahodd trefnwyr teithiau o wledydd tramor i fynychu tripiau ymgyfarwyddo.

> “Mae yna gyfle enfawr i Croeso Cymru elwa ar y Bencampwriaeth Agored i fenywod a gwahodd trefnwyr teithiau o wledydd tramor i fynychu tripiau ymgyfarwyddo.”

Mae un clwb braidd yn siomedig gyda’r diffyg cefnogaeth a gafodd gan yr R&A (corff llywodraethu), ac mae o’r farn y gellid bod wedi cynnwys y clwb i raddau mwy yn y cynlluniau i hyrwyddo golff a lletygarwch yn yr ardal.

> “Nid oeddem yn cael defnyddio logo’r R&A. Mae yna ddigwyddiad R&A i lawr y lôn, dewch draw i’n gweld, ond nid oeddem yn cael gwneud hynny. Fe allai’r R&A fod wedi hysbysebu’r ardal i raddau mwy o lawer. Dylai clybiau yn ardal Porthcawl fod yn elwa i’r eithaf ar nifer yr ymwelwyr a fydd yn dod i’r ardal.”

# Beth yw cynlluniau’r clybiau ar gyfer y dyfodol?

## Buddsoddi llawer mewn denu rhagor o ymwelwyr

Yn gyffredinol, mae clybiau’n awyddus iawn i gynyddu nifer eu hymwelwyr, gan fod ymwelwyr yn ffrwd incwm sy’n gwario llawer o arian.

> “Mae’r twf yn dod o du ymwelwyr. Mae’r refeniw a gawn yn sgil ymwelwyr wedi cynyddu 65% yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf. Rydym wedi gwneud hynny trwy farchnata a thrwy wella ein seilwaith ac ansawdd ein maes golff.”

> “Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio llawer ar yr aelodau… felly rydym yn ceisio cynyddu nifer ein hymwelwyr.”

Mae marchnad y DU (o Loegr, yn bennaf) yn cyfateb ymron i hanner yr ymwelwyr golff a ddaw i Gymru ar hyn o bryd. Mae clybiau’n cydnabod pa mor bwysig yw’r farchnad hon ac maent yn awyddus i gynnal nifer y bobl sy’n ymweld â’r DU ar hyn o bryd, neu gynyddu’r nifer hyd yn oed.

> “Rydym wedi ceisio targedu Swydd Efrog, Llundain, Dyfnaint a Chernyw, ac rydym wedi cael llwyddiant cymedrol. Nid yw ymwelwyr o Lundain yn cael unrhyw drafferth oherwydd cysylltiadau trafnidiaeth da ar hyd yr M4, a hefyd mae’r doll ar y bont i Gymru wedi cael ei diddymu.”

Fodd bynnag, mae rhai clybiau o’r farn bod y farchnad dramor yn gyfle pwysig ar gyfer twf gan fod y farchnad honno’n cynrychioli cyfran mor fach o’u hymwelwyr ar hyn o bryd. Ceir ymdeimlad o gyffro ynglŷn â’r niferoedd cymharol ddihysbydd o ymwelwyr a allai ddeillio o’r farchnad dramor.

> “Rydym o’r farn y daw’r twf o du gwledydd tramor, yn enwedig Unol Daleithiau America a Sgandinafia. Maent eisiau mwynhau dod i Gymru. Maent wedi bod yn yr Alban ac Iwerddon a Lloegr. Mae’r cyrchfannau hynny’n brysur ac yn ddrud iawn. Maent yn chwilio am rywbeth newydd, ac mae Cymru’n ennyn eu chwilfrydedd.”

Mae rhai clybiau bron â chyrraedd eu capasiti gan eu bod yn ymwybodol bod angen iddynt gadw’u haelodau’n hapus; ond serch hynny, maent yn dal i fod yn awyddus i wneud popeth o fewn eu gallu i wneud lle i ymwelwyr, gan eu bod yn gwerthfawrogi’r refeniw.

> “Rydym bron â chyrraedd y lefel honno o ran gallu cydbwyso lefel iach o ran ymwelwyr a chadw’r aelodau’n hapus.”

## A yw clybiau’n dymuno gweithio gyda Croeso Cymru?

Mae clybiau o’r farn bod Croeso Cymru’n bartner pwysig, yn enwedig os ydynt am wireddu unrhyw dwf o du gwledydd tramor. Er bod gan rai clybiau weithgareddau marchnata mewn gwledydd eraill ac er bod y gweithgareddau hynny’n llwyddo i ryw raddau, mae’r mwyafrif ohonynt o’r farn na fyddant yn llwyddo o ddifrif heb Croeso Cymru. Mae rhai clybiau wedi rhoi cynnig ar bethau o’r fath ar eu pen eu hunain, ac wedi methu.

> “Roeddem yn arfer troi ar IGTM, ond roedd yr adenillion yn ddibwys. Byddem yn cyfarfod â llu o asiantau a fyddai’n addo’r byd ac yn dweud ‘rydym wedi cael llond bol ar fynd i Iwerddon a’r Alban, rydym eisiau mynd i Gymru.’ Byddem yn treulio amser yn rhoi pecynnau ynghyd ar eu cyfer, ond ai dyna y mae’r defnyddwyr yn dymuno’i gael mewn gwirionedd? Mae’r mwyafrif o Americanwyr yn dal i ddymuno chwarae yn Gleneagles a Trump Turnberry ac nid ydynt yn fodlon ystyried opsiynau eraill. Maent eisiau chwarae ar y meysydd golff eiconig.”

Mae Croeso Cymru / Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi’n fawr yn y dasg o hyrwyddo golff, hyd at ac yn cynnwys 2010, pan gynhaliwyd y Cwpan Ryder yn y Celtic Manor. Ond ers hynny, mae clybiau o’r farn bod y buddsoddi hwnnw wedi edwino. Maent yn awyddus gweld y buddsoddi’n dychwelyd, oherwydd nid oes gan Gymru yr un ‘presenoldeb cenedlaethol’ â’r Alban ac Iwerddon yn y byd golff. Er mwyn newid hyn, rhaid cael ymrwymiad hirdymor.

> “Nid yw Cymru wedi cael unrhyw bresenoldeb mewn sioeau golff rhyngwladol ers sawl blwyddyn. Maent wedi rhoi’r gorau i hyrwyddo golff o ddifrif ar ôl y Cwpan Ryder, tra mae’r Alban ac Iwerddon wedi cael presenoldeb cyson yn y farchnad.”

Hefyd, credir y dylai Croeso Cymru weithio gyda chlybiau i greu fideos yn arddangos y meysydd golff.

Mae rhai trefnwyr teithiau o’r farn y dylai Croeso Cymru allu cyflwyno cais cryf dros fuddsoddi mewn twristiaeth golff oherwydd gwariant uchel yr ymwelwyr.

> “Os edrychwch ar wefan Croeso Cymru, sonnir llawer am gerdded, beicio a’r awyr iach; hwylfyrddio … Rydw i’n credu bod golffwyr yn gwario mwy o arian na mathau eraill o ymwelwyr sy’n ymhél â gweithgareddau.”

## Cydweithio i dargedu ymwelwyr o wledydd tramor

Mae clybiau golff yn tueddu i ystyried ei gilydd fel partneriaid yn hytrach na chystadleuwyr pan ddaw hi’n fater o farchnata’r cynnyrch y tu hwnt i’r wlad. Yr unig eithriad yn hyn o beth yw os ceir cyrchfannau golff ag arlwy tebyg i’w gilydd o fewn yr un rhanbarth. Mae ymwelwyr, yn enwedig ymwelwyr o wledydd tramor, yn dymuno chwarae ar nifer o feysydd golff, nid un yn unig; felly, mae clybiau’n cydnabod bod angen iddynt weithio gyda’i gilydd i ddenu’r tripiau hynny.

> “Mae yna gyfle da i glybiau lleol weithio gyda’i gilydd i ddenu pobl i Gymru … rydym yn ceisio cynnig prisiau cystadleuol, ond nid er mwyn cynnig prisiau rhatach na chlybiau eraill. Rydym yn ceisio gweithio gyda’n gilydd i gael cyfraddau tebyg.”

Ym marn rhai, mae gan Croeso Cymru rôl o ran dwyn clybiau ynghyd mewn rhanbarth arbennig, a marchnata ‘llwybr golff’ i ymwelwyr. Byddai hyn yn mynd law yn llaw â hyrwyddo hanes cyfoethog golff yng Nghymru, ynghyd â’r golygfeydd godidog a’r gwerth rhagorol am arian.

> “Buaswn wrth fy modd pe bai llwybr golff yn cael ei ddatblygu yng Nghymru. Mae a wnelo hyn â threftadaeth, ac mae pobl yn parchu hynny.”

> “Pan ydw i’n siarad gydag ymwelwyr o Loegr, nid ydynt yn sylweddoli’r gwerth y gallwch ei gael yma. Maent yn berffaith fodlon talu £200-£300 am rownd o golff. Ond mae ein ffioedd ni’n dal i fod dan £100.

## Mae rhai clybiau’n adeiladu llety

Oherwydd ymholiadau a galw posibl, mae rhai clybiau’n buddsoddi yn eu llety dormi eu hunain ar eu safleoedd.

> “Gan fod y galw am lety mor uchel, ein prosiect gwariant cyfalaf nesaf fydd adeiladu llety dormi.”

> “Rydym yng nghanol y broses gynllunio ar gyfer llety hunanarlwyo a 20 o ystafelloedd twin. Rydym ar dân eisiau cael caniatâd cynllunio. Mae’r buddsoddiad yn werth £5m.”

## Buddsoddi rhagor mewn cynhyrchion, gwasanaethau a marchnata

Yn ogystal â llety, mae rhai clybiau’n buddsoddi yn y dasg o wella’u cynnyrch golff craidd neu eu gwasanaethau ategol. Hefyd, ceir syniadau newydd ar gyfer hyrwyddo.

> “Rydym wedi gwella ein trefniadau ar gyfer lletya golffwyr o wledydd tramor – er enghraifft, trwy ddarparu cadïaid a thyweli, a thrwy gyflogi ceidwaid. Mae disgwyliadau golffwyr o wledydd tramor yn tueddu i fod yn uchel.”

> “Rydym wedi dechrau gweithio ar faes ymarfer a man tsipio. Rydym wedi buddsoddi llawer o arian mewn hyfforddiant a pheiriannau. Mae gennym gynllun 5 mlynedd parhaus gydag agronomegydd. Hefyd, rydym wedi gweithio gyda phensaer meysydd golff i weithio ar yr estheteg. Rydym yn sôn am roi cynnig ar greu digwyddiadau ochr yn ochr â chlybiau eraill, er mwyn troi ein hardal yn gyrchfan golff.”

## Denu’r Bencampwriaeth Agored i Ddynion

Yn ôl rhai, mae gwir angen i Gymru ddenu’r Bencampwriaeth Agored (i ddynion) os ydym am weld newid sylweddol mewn ymwybyddiaeth ryngwladol.

> "Byddai'n wych pe bai'r Bencampwriaeth Agored yn dod i Gymru. Rydym wedi gweld adroddiadau effaith yn sôn am yr hyn y mae'r bencampwriaeth wedi'i wneud i feysydd golff yn yr Alban ac Iwerddon, o ran twristiaeth golff."

Yn ôl rhai, Clwb Golff Brenhinol Porthcawl sydd â'r siawns orau yng Nghymru o gael ei ddewis i gynnal y Bencampwriaeth Agored. Ond mae un clwb o'r farn fod hyn yn annhebygol o ddigwydd oherwydd diffyg seilwaith yn y clwb neu ddiffyg lle addas i godi prif stand.



Maes Golff Pennard, Abertawe

## Beth sy'n rhwystro twf?

### Amheuon ynglŷn â chynaliadwyedd y cynnyrch ar gyfer golffwyr o America

Er bod y syniad o ddenu ychwaneg o golffwyr o wledydd tramor yn cyffroi nifer o glybiau, mae rhai'n amau a yw Cymru'n meddu ar y cynnyrch iawn i ddenu Americanwyr. Mae Americanwyr yn tueddu i gael eu denu i'r Alban, gan mai'r wlad honno yw 'cartref golff', a hefyd i Iwerddon oherwydd tras. Maent yn aros am gyfnodau maith (wythnos fan leiaf), ac o'r herwydd maent yn chwilio am nifer o feysydd golff gwych. Yn ôl rhai clybiau o Gymru, er bod gan Gymru rai meysydd golff gwych o'r fath, ni cheir digon ohonynt ar gyfer trip cyflawn.

> "Mae gennym feysydd golff gwych yng Nghymru, ond mae angen inni fuddsoddi er mwyn gwella safon ychwaneg o feysydd golff, fel y gallwn gyrraedd safon prif feysydd golff y Alban ac Iwerddon. Y risg yw y bydd y bwlch rhwng Iwerddon/yr Alban a Chymru yn lledu, gan fod y gwledydd hynny'n buddsoddi cymaint o arian yn eu cyfleusterau."

> "Mae gennym feysydd golff gwych yng Nghymru, ond a oes gennym ddigon ohonynt i ddenu golffwyr o America i ddod i Gymru ar wyliau?"

Mae clybiau o'r farn bod Cymru'n cynnig gwerth gwych am arian o gymharu â'r Alban ac Iwerddon. Ond dywedant hefyd fod golffwyr o America yn llawer llai sensitif i brisiau, o gymharu â golffwyr o Ewrop. Mewn ambell ffordd, efallai fod yn well gan Americanwyr dalu pris uwch gan eu bod yn credu wedyn eu bod yn cael gwyliau o'r radd flaenaf. Ceir amheuon ynghylch a oes digon o lety moethus ar gael yng Nghymru.

> “Wnaiff Americanwyr ddim ystyried meysydd golff sy’n codi llai na £100, gan eu bod yn credu nad yw meysydd golff o’r fath yn rhai da iawn.”

> “Rydym yn agor llety moethus o’r radd flaenaf a’n bwriad yw targedu’r farchnad Americanaidd sy’n fodlon gwario llawer o arian. Am bris ffi werdd yn unig yn y Royal County Down, byddai modd iddynt aros mewn castell yng Nghymru a chwarae ym Mhorthcawl.”

## Canfyddiad o fynediad at deithiau hedfan i Gymru

Mae rhai clybiau’n dweud eu bod yn wynebu her o dro i dro o ran perswadio trefnwyr teithiau o wledydd tramor bod hedfan i Gymru yn haws nag y tybiant. Nifer cyfyngedig o deithiau hedfan uniongyrchol a geir i Faes Awyr Caerdydd, felly mae Tîm Diwydiant Teithio Croeso Cymru yn treulio llawer o amser yn rhoi gwybod i drefnwyr teithiau y gallant gyrraedd Cymru’n rhwydd o feysydd awyr Bryste, Birmingham a Manceinion (yn ogystal â pharhau i hyrwyddo Maes Awyr Caerdydd). Ar ôl i drefnwyr teithiau deithio i Gymru trwy ddefnyddio maes awyr cyfagos yn Lloegr, maent yn sylweddoli bod y siwrnai’n gymharol syml; ond tasg anodd ar brydiau yw cyrraedd y pwynt hwnnw.

> “Ni all trefnwyr teithiau ddirnad eu bod yn glanio ym Manceinion ond eu bod yn dod i Gymru. Dim ond ar ôl iddynt wneud y siwrnai eu hunain y gwelant y goleuni. Yna, maent yn mynd yn ôl ac yn creu trip, ond gall gymryd dwy flynedd i gyrraedd y cam hwnnw.”

# 4. Trefnwyr teithiau

Seilir yr adran hon ar 19 o gyfweliadau ansoddol gyda threfnwyr teithiau o’r DU ac o wledydd tramor. Er mai’r wlad y lleolir y trefnydd ynddi yw prif farchnad y trefnydd hwnnw fel arfer, mae’r mwyafrif o drefnwyr yn gwerthu teithiau i gwsmeriaid sy’n byw mewn gwledydd eraill hefyd. Gallai’r cyrchfannau a werthant fod yn unrhyw le.

## Beth yw prif nodweddion y marchnadoedd daearyddol?

### Y DU

Yn bennaf, mae golffwyr o’r DU yn trefnu bod eu tripiau domestig yn digwydd rhwng Ebrill a Hydref. Mae’r cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth yn gyfnod archebu hollbwysig. Hefyd, caiff tripiau eu trefnu ar yr unfed awr ar ddeg os yw rhagolygon y tywydd yn ffafriol. Mewn achosion o’r fath, mae’r grwpiau’n debygol o fod yn llai – rhwng dau a chwech o bobl, o bosibl. Mae’r cyfle i ddenu archebion ar yr unfed awr ar ddeg pan fo’r tywydd yn ffafriol yn gosod y farchnad ddomestig ar wahân i’r farchnad dramor gan fod modd i bobl o’r DU gyrraedd y cyrchfannau golff yn gyflymach ac yn rhwyddach o lawer.

Yn ogystal â chystadlu yn erbyn ei gilydd, mae clybiau golff o’r DU a chyflenwyr eraill sydd â diddordeb yn y farchnad ddomestig yn cystadlu yn erbyn cyrchfannau tramor, yn enwedig Iwerddon, tir mawr Sbaen, ynysoedd Sbaen, Portiwgal a Ffrainc. Os bydd y DU yn cael tywydd gwael yn ystod yr haf, bydd hyn yn ei gwneud hi’n anodd i’r DU gystadlu yn erbyn teithio tramor. Mae trefnwyr teithiau a leolir yn y DU, yn enwedig y rhai mwyaf, yn anfon cwsmeriaid i wledydd tramor yn ogystal ag i leoedd yn y DU.

Mae golffwyr benywaidd yn cynrychioli cyfran helaeth o’r farchnad ddomestig. Mae un cwmni trefnu teithiau mawr yn amcangyfrif bod 30% o gwsmeriaid y DU yn fenywod, ac mae cwmni mawr arall yn amcangyfrif bod 20% o gwsmeriaid y DU yn fenywod.

Mae golffwyr o’r DU sy’n mynd ar deithiau domestig yn tueddu i fod yn weddol fodlon â’r llety. Mae nifer ohonynt yn fodlon aros mewn llety pris canolig neu bris rhesymol, gan mai’r golff (yn hytrach na’r llety) yw canolbwynt y trip.

Un her a ddaw i ran trefnwyr teithiau o’r DU sy’n gwerthu tripiau domestig yw’r ffaith y gallai eu cwsmeriaid archebu eu rowndiau golff a’u llety yn uniongyrchol pe baent yn dymuno gwneud hynny, gan adael rôl gyfyngedig iawn i drefnwyr teithiau.

> “Yn aml, rhywun o fewn rhyw glwb fydd yn gwneud y trefniadau gyda’u cyfeillion. Sut y gallwch eu perswadio i ddod atom ni a phrynu pecyn pan maen nhw eisoes wedi trefnu’r llety ac archebu amseroedd chwarae golff?”
> Trefnydd teithiau o’r DU

## Ewrop

Yn achos golffwyr o Ewrop, mae'r tymor ar gyfer archebu tripiau i'r DU ychydig yn fyrrach – sef rhwng Mai a Medi yn hytrach na rhwng Ebrill a Hydref. Hyd nodweddiadol y teithiau yw 7 noson gyda 5 rownd o golff, neu 5 noson gyda 4 rownd o golff. Hefyd, ceir rhai tripiau 2-3 noson o hyd.

> "Nid ydym yn gwneud unrhyw ymdrech i werthu tripiau ar ôl mis Medi."
> Trefnydd teithiau o Ffrainc

Mae clybiau golff o'r DU a chyflenwyr eraill sydd â diddordeb yn y farchnad Ewropeaidd yn cystadlu yn erbyn cyrchfannau eraill yn Ewrop, yn enwedig lleoedd heulog a chynnes fel Sbaen a Phortiwgal. Yn achos golffwyr o ogledd Ewrop, yr unig hinsoddau sy'n mynd â'u bryd yw hinsoddau sy'n wahanol i hinsawdd eu gwledydd nhw, felly nid ydynt yn ystyried y DU.

> "Nid oes gan ein cwsmeriaid fawr o ddiddordeb yn y DU, gan fod pob un ohonynt yn dymuno cael hinsoddau mwy heulog."
> Trefnydd teithiau o'r Almaen

Mae menywod yn elfen bwysig yn y farchnad Sgandinafaidd. Yn ôl rhai trefnwyr teithiau, mae menywod yn cynrychioli bron i 50% o'u cwsmeriaid. O gymharu â'r mwyafrif o'r marchnadoedd eraill, mae Sgandinafia wedi teithio ymhellach ar hyd y llwybr tuag at bresenoldeb cyfartal o ran golffwyr benywaidd a golffwyr gwrywaidd.

Hefyd, mae Sgandinafiaid yn gwerthfawrogi gwerth am arian. Golyga hyn eu bod yn fwy tebygol na rhai cenhedloedd eraill o chwilio am lety pris canolig a phris rhesymol, a'i bod yn haws eu perswadio i ymweld â chyrchfannau sy'n cynnig gwerth da am arian yn hytrach na chyrchfannau drud.

Ni roddir lle blaenllaw i golff yn yr Almaen, ond mae nifer o'r rhai sy'n chwarae golff yn fodlon teithio. Nid yw safon y chwarae ymhlith golffwyr o'r Almaen yn dda iawn o gymharu â'r DU; golyga hyn eu bod yn chwilio am feysydd golff dymunol yr olwg yn hytrach na meysydd golff a fydd yn eu herio. Hefyd, mae cyfran eithaf mawr o golffwyr yr Almaen yn fenywod.

Mae Almaenwyr yn gwerthfawrogi'r arlwy ehangach a gynigir i dwristiaid, fel cyfarfod â phobl leol a chael profiad o ddiwylliant lleol, yn hytrach na chwarae golff yn unig. Mae rhai segmentau o'r farchnad yn chwilio am lety moethus, ond byddai'n well gan nifer ohonynt aros mewn gwesty safonol 4 seren er mwyn iddynt gael arian wrth gefn i'w wario yn ystod y trip.

> "Mae gan Gymru feysydd golff anhygoel ar yr arfordir. Nid oes yn rhaid mynd i Glwb Golff Brenhinol Porthcawl na Twenty Ten [Celtic Manor]; nid oes gan Almaenwyr ddiddordeb mewn cyflawni 'rhestrau cicio'r bwced'. Maent eisiau chwarae ar feysydd golff hardd, lleol a dymunol. Maent yn dod i Gymru er mwyn gallu mwynhau'r pentrefi bach."
> Trefnydd teithiau o'r Almaen

Mae golffwyr o'r Iseldiroedd yn gallu bod yn eithaf sensitif i brisiau. Hefyd, mae nifer ohonynt yn ysu am gael gweld y mynyddoedd, gan eu bod yn brin iawn yn eu gwlad nhw. O'r herwydd, gall meysydd golff â golygfeydd godidog o fynyddoedd Cymru fod yn ddeniadol iawn i golffwyr o'r Iseldiroedd.

Mae golffwyr o Ffrainc yn tueddu i fod yn ddynion. Nid yw'r gêm wedi llwyddo i ennyn diddordeb menywod Ffrainc eto, yn wahanol i Sgandinafia neu'r Almaen.

## Unol Daleithiau America

Mae Americanwyr a ddaw i Ewrop i chwarae golff yn wahanol i dwristiaid golff Ewropeaidd mewn sawl ffordd bwysig:

- Ar gyfartaledd, maent yn tueddu i aros am fwy o amser – 7 noson o leiaf fel arfer, weithiau 10 noson. Mae gan hyn oblygiadau o ran a oes gan y gyrchfan dan sylw ddigon o feysydd golff deniadol i lenwi eu hamser.
- Maent yn tueddu i wario llawer o arian. Fel arfer, maent yn chwilio am feysydd golff blaenllaw a llety moethus o'r radd flaenaf, ac maent yn fodlon talu'n ddrud am hyn.
- Maent yn arbennig o hoff o'r Alban ac Iwerddon gan eu bod wrth eu bodd o allu dweud eu bod wedi chwarae golff mewn lleoedd mawr eu bri. Hefyd, mae hanes a chysylltiadau cyndadol â'r Alban ac Iwerddon yn bwysig.

> "Mae Americanwyr yn gwario llawer o arian ac maent yn dymuno dweud eu bod wedi ymweld â meysydd golff a lleoedd enwog. Mae Iwerddon a'r Alban yn darparu ar gyfer hyn."
> Trefnydd teithiau o'r Unol Daleithiau

> "Rydw i'n darparu ar gyfer y farchnad Ewropeaidd, sy'n wahanol iawn i farchnad Gogledd America. Fel arfer, mae'r farchnad Ewropeaidd yn cynnwys grwpiau llai a gwyliau byrrach, ac mae Ewropeaid yn fwy darbodus nag Americanwyr."
> Trefnydd teithiau o'r Iseldiroedd



Maes Golff Conwy

# Pa mor dda y mae Cymru'n gwerthu i drefnwyr teithiau?

## Cyrchfan gref ar gyfer y farchnad ddomestig

I drefnwyr teithiau yn y DU, mae Cymru'n gwerthu'n ddibynadwy o dda. Er nad yw Cymru'n meddu ar yr un bri â'r Alban ac Iwerddon mewn perthynas â golff, mae'n gwneud yn iawn am hyn trwy ddenu nifer fawr o golffwyr yn sgil capasiti mawr y Celtic Manor; ac, wrth gwrs, mae modd cyrraedd y wlad yn rhwydd o'r rhan fwyaf o Loegr, yn enwedig o gymharu ag Iwerddon. Nid oes yn rhaid cyfuno Cymru â rhannau o Loegr ar gyfer tripiau golff domestig: mae'n gwerthu'n ddigon da ar ei phen ei hun.

> "Rydym yn anfon 10,000 o golffwyr i Gymru bob blwyddyn. Mae'r niferoedd a anfonir i'r Alban ac i Iwerddon yn debyg. Mae'r ffaith bod gan y Celtic Manor 750 o ystafelloedd yn bwysig yn hyn o beth, tra mae grwpiau llai yn mynd i'r Alban ac i Iwerddon, a rhaid hedfan er mwyn mynd i Iwerddon."
> Trefnydd teithiau o'r DU

> "Yn 2024, fe wnaethom anfon oddeutu 11,000 o bobl i Gymru ar dripiau golff, gan drefnu 21,000 o rowndiau golff."
> Trefnydd teithiau o'r DU

Mae trefnwyr teithiau o'r DU yn tueddu i weld Cymru ar ffurf dwy ran wahanol, sef: Gogledd Cymru a De Cymru. Mae modd cyrraedd y ddwy ran yn rhwydd o Loegr; er, mae un cwmni trefnu teithiau mawr o'r farn y gall rhan helaethach o boblogaeth Lloegr yrru ynghynt i Ogledd Cymru o gymharu â De Cymru. Gall hyn effeithio ar nifer y nosweithiau a dreulir yno.

## Diffyg ymwybyddiaeth defnyddwyr tramor

Nid yw Cymru'n gwerthu'n dda mewn gwledydd tramor o gymharu â'r Alban ac Iwerddon. Nid yw defnyddwyr yn ymwybodol iawn o arlwy golff Cymru. Ymddengys na cheir cynifer o geisiadau i ddod i Gymru; ac, wrth gwrs, mae trefnwyr teithiau golff yn tueddu i gael eu harwain gan eu cwsmeriaid. Ond ystyrir bod gan yr Alban ac Iwerddon arlwy golff cryf, gyda hanes, meysydd golff o'r radd flaenaf, llety moethus yn y lleoedd iawn ac ychwaneg o atyniadau fel distyllfeydd yn yr Alban.

> "Mae eleni yn mynd i fod yn flwyddyn eithriadol o lwyddiannus i ni o ran Americanwyr yn dod draw i'r Alban ac i Iwerddon … ond rydym wedi cael cryn anhawster i ddenu golffwyr America i Gymru."
> Trefnydd teithiau o'r DU (sydd hefyd yn gwasanaethu'r farchnad a ddaw i mewn i Gymru)

I ryw raddau, gellir mynd i'r afael â'r diffyg ymwybyddiaeth hwn trwy gyfuno tripiau gyda rhannau cyfagos o Loegr, yn enwedig trwy gyfuno'r ardal boblogaidd o amgylch Lerpwl gyda Gogledd Cymru.

> “Rydym wedi ymestyn trip neu ddau i Ogledd Cymru o feysydd golff Agored yn ardal Lerpwl.”
> Trefnydd teithiau o Sgandinafia

Fodd bynnag, nid yw trefnwyr tramor eraill yn gweld yr un potensial i gyfuno Gogledd Cymru yn y modd hwn, gan fod ardal Lerpwl yn gwerthu’n ddigon da ar ei phen ei hun yn sgil ei meysydd golff mawr eu bri.

> “Ceir cynifer o feysydd golff mawr eu bri yn ardal Southport yn Lloegr – nid wyf yn credu bod yna gymhelliant i gynnwys [Gogledd] Cymru.”
> Trefydd teithiau o Sweden

Mae’r trefnwyr eu hunain yn fwy ymwybodol na’u cwsmeriaid o golff yng Nghymru, ar ôl dod yma i chwarae golff; ond gall diffyg ymwybyddiaeth o gyflenwyr lesteirio ymdrechion i greu pecynnau.

> “Pe bai gennyf gysylltiadau da sy’n dymuno gweithio gyda threfnwyr teithiau, gallwn ymdrechu mwy o lawer i gynyddu gwerthiannau yng Nghymru; ond fy mhrif broblem yw diffyg cyflenwyr i ohebu â nhw.”
> Trefnydd teithiau o Ffrainc

## Pryd y mae golffwyr yn ymweld â Chymru?

### Rhwng Ebill a Hydref

Gan adleisio adborth a gafwyd gan glybiau yng Nghymru, ac yn unol â’r galw am y DU yn ehangach, y prif dymor yw Ebrill i Hydref. Mae ymwelwyr o wledydd tramor yn fwy tebygol o ddod draw rhwng Mai a Medi; ond cyfran fechan iawn o’r farchnad yw’r rhain, o gymharu ag ymwelwyr o’r DU.

## Ar ba ddiwrnodau o’r wythnos y mae ymwelwyr golff yn chwarae yng Nghymru?

### Galw da drwy’r wythnos

Mae’r galw am Gymru (a’r DU yn gyffredinol) o du golffwyr y DU ar ei uchaf rhwng dydd Gwener a dydd Sul; ond gan fod pobl nad ydynt yn aelodau yn cael anhawster i chwarae ar ddyddiau Sadwrn, caiff yr archebion eu gwasgaru ar draws diwrnodau’r wythnos. Fodd bynnag, mae gan gyrchfannau fel y Celtic Manor, The Vale Resort a St. Pierre nifer o feysydd golff, ac felly mae ganddynt fwy o gapasiti i gymryd archebion yn ystod penwythnosau.

Caiff y galw am Gymru (ac unrhyw le yn gyffredinol) o du golffwyr tramor ei wasgaru ar draws yr wythnos, gan fod golffwyr tramor yn aros yn hwy na golffwyr o’r DU (e.e. 5 noson

neu 7 noson). Gall trefnwyr teithiau osgoi dibynnu ar ddydd Sadwrn, gan eu bod yn gwybod mai'r diwrnod hwnnw yw'r diwrnod anoddaf i ymwelwyr golff chwarae yn unrhyw le.

> "Cynhelir y mwyafrif o'r tripiau rhwng dydd Sul a dydd Gwener, oherwydd gwyddom fod meysydd golff yn eithaf llawn ar benwythnosau. Pan fydd gennym drip sy'n wythnos o hyd, rydym yn ceisio teithio rhwng dydd Sadwrn a dydd Sadwrn, oherwydd mae dydd Sadwrn yn ddiwrnod 'aelodau'n unig' ym mhob man drwy'r byd."
> Trefnydd teithiau o'r Almaen

## Beth yw'r elfennau cadarnhaol ymddangosiadol sy'n perthyn i Gymru fel cyrchfan golff?

### Gwell gwerth o lawer na'r Alban ac Iwerddon

'Pwynt gwerthu unigryw' presennol Cymru, o gymharu â chyrchfannau golff enwocach yn yr Alban ac Iwerddon, yw gwerth am arian. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf (ar ôl Covid), mae ffioedd gwyrdd yn yr Alban ac Iwerddon wedi cynyddu'n fawr, felly mae Cymru'n unigryw o ran cynnig arlwy 'gwerth am arian'. Mae trefnwyr teithiau o'r DU ac Ewrop o'r farn bod hyn yn fantais fawr, a gwelant gyfle clir i Gymru ddwyn cyfran o'r farchnad oddi ar yr Alban ac Iwerddon.

> "Mae'r cyfraddau wedi cynyddu'n enfawr ar gyfer meysydd golff o'r radd flaenaf ledled yr Alban ac Iwerddon. Maent wedi cynyddu rhywfaint yng Nghymru hefyd, ond rydym o'r farn bod meysydd golff Gogledd a De Cymru yn cynnig gwerth gwych am arian."
> Trefnydd teithiau o'r DU

Hefyd, roedd un cwmni trefnu teithiau mawr o'r DU o'r farn bod Gogledd Cymru'n cynnig gwell gwerth am arian o gymharu ag ardal boblogaidd Lerpwl gerllaw.

> "Mae Gogledd Cymru'n cynnig gwerth eithriadol am arian. Mae Gogledd Orllewin Lloegr yn gyrchfan golff hynod boblogaidd, ond mae'r gost wedi cynyddu'n fawr ers Covid. Mae gallu symud pobl i Ogledd Cymru yn opsiwn gwych."
> Trefnydd teithiau o'r DU

Yr unig anfantais sy'n perthyn i ffioedd gwyrdd is Cymru yw'r ffaith bod rhai golffwyr o wledydd tramor (yn enwedig Americanwyr) yn credu bod lefel y ffioedd yn adlewyrchu ansawdd y meysydd golff.  Gall hyn beri i bobl gredu bod ansawdd meysydd golff Cymru yn is.

### Ni cheir cynifer o dwristiaid ar feysydd golff Cymru

Gan fod yr Alban ac Iwerddon mor boblogaidd ymhlith y farchnad dramor, mae ymwelwyr yn tueddu i gael eu hamgylchynu gan lu o ymwelwyr eraill. Efallai y gall hyn amharu rhywfaint

ar y profiad o fod mewn cyrchfan newydd a'r profiad o gyfarfod â phobl leol. Nid yw'r broblem hon yn berthnasol i Gymru.

> "Mae twristiaeth yng Nghymru yn wahanol i dwristiaeth yn yr Alban ac Iwerddon. Rydw i'n credu bod Cymru'n fwy moethus yn hyn o beth, gan eich bod yn cael y lle i chi eich hun; ni chewch eich amgylchynu gan dorfeydd o bobl. Nid yw pobl yn gwybod am y lle."
> Trefnydd teithiau o'r Unol Daleithiau

## Llond llaw o feysydd golff o'r radd flaenaf ar gyfer tripiau byrrach

Er bod ffioedd gwyrdd yn rhatach o lawer yng Nghymru o gymharu â'r Alban ac Iwerddon, y cwestiwn pwysig yw sut y mae ansawdd y meysydd golff yn cymharu â'i gilydd.

Y farn gyffredinol yw bod llond llaw o feysydd golff o'r radd flaenaf i'w cael yng Nghymru – hynny yw, meysydd golff sydd yn yr un cae â meysydd golff mwyaf blaenllaw Iwerddon a'r Alban. Yn arbennig, mae Clwb Golff Brenhinol Porthcawl wedi'i leoli yng Nghymru, sef maes golff blaenllaw y gellir ei ddefnyddio i werthu teithiau. Hefyd, ceir nifer o feysydd golff da eraill yng Nghymru a chanddynt olygfeydd ysblennydd o'r arfordir. Felly, ceir digon o feysydd golff da ar gyfer tripiau byr.

> "Mae hi'n hanfodol cael o leiaf un maes golff blaenllaw / enwog i ddangos i'm cleientiaid y byddai Porthcawl yn taro'r nod … ac mae'n llawer rhatach na St. Andrews."
> Trefnydd teithiau o Sgandinafia

## Elfennau cadarnhaol eraill sy'n perthyn i Gymru

- Profiad 'hen ffasiwn' dymunol y tu hwnt i'r golff, gyda threfi a phentrefi bach a golygfeydd godidog.
- Mae rhai trefnwyr teithiau o'r DU ac Ewrop o'r farn bod ansawdd y llety'n ddigonol (pan na fydd pobl yn chwilio am lety moethus), ac ni chânt broblemau o ran capasiti os yw'r grwpiau'n weddol fach.

> "'Tafarndai gydag ystafelloedd' a geir yng Ngogledd Cymru. Mae hynny'n iawn – fel'na rydym yn eu gwerthu."
> Trefnydd teithiau o'r DU

> "Nid yw marchnad yr Almaen yn gwerthfawrogi Cymru'n ddigonol. Ceir golygfeydd hardd a meysydd golff y mae Almaenwyr yn chwilio amdanynt, ond nid ydynt yn gwybod am hyn."
> Trefydd teithiau o'r Almaen



Porthmadog, Gogledd Cymru

# Beth yw'r rhwystrau ymddangosiadol mewn perthynas â golff yng Nghymru?

## Diffyg ymwybyddiaeth defnyddwyr tramor

Mae Cymru'n colli cyfran helaeth o'r busnes tramor a ddaw i Ynysoedd Prydain gan nad yw defnyddwyr yn gofyn am yr arlwy, ac o'r herwydd nid yw trefnwyr teithiau'n gwthio'r arlwy hwnnw. Ychwaith, ni all Cymru honni ei bod yn 'gartref i golff' yn yr un modd â'r Alban (sef rhywbeth sy'n denu'r Americanwyr yn arbennig).

> "Yr Alban yw cartref golff ac mae'r Americanwyr yn gwirioni ar yr hanes hwnnw. Ni allwch atgynhyrchu'r hanes hwnnw yn unman arall."
> Trefnydd teithiau o'r DU (sydd hefyd yn gwasanaethu'r farchnad a ddaw i mewn i Gymru)

## Canfyddiadau o fynediad at deithiau hedfan

Mae mynediad at deithiau hedfan rhyngwladol ym Maes Awyr Caerdydd yn eithaf cyfyngedig ar hyn o bryd; felly, y ffordd fwyaf realistig o ddod o hyd i deithiau addas yw trwy archwilio opsiynau sy'n hedfan i Fryste, Birmingham neu Fanceinion. Mae rhai trefnwyr teithiau'n deall hyn, ac nid ydynt yn ei ystyried fel rhwystr; ond mae trefnwyr eraill yn diystyru hedfan i feysydd awyr a leolir y tu allan i Gymru, er na fyddai'r daith rhwng y maes awyr a'r gyrchfan yn faith o angenrheidrwydd. Hyd yn oed lle mae gan Gaerdydd hediadau uniongyrchol, yn aml nid oes cymaint o ddewis o amseroedd a dyddiadau ag y byddai gweithredwyr yn ei hoffi.

## Rhai problemau gyda llety

Er bod ansawdd neu gapasiti'r llety ar gyfer golffwyr yng Nghymru yn peri dim problemau o gwbl i rai trefnwyr teithiau, mae trefnwyr eraill yn crybwyll rhai problemau. Yn achos trefnwyr teithiau sy'n chwilio am lety moethus o'r radd flaenaf (yn enwedig ar gyfer cwsmeriaid o America), yn gyffredinol nid ydynt yn llwyddo i ddod o hyd i lety o'r fath neu maent o'r farn

na fyddent yn dod o hyd iddo pe baent yn chwilio'n iawn yng Nghymru. Ond ystyrir bod cystadleuwyr hollbwysig yn yr Alban ac Iwerddon yn cynnig llety o'r fath.

> "Rydw i'n credu bod gan Gymru arlwy da ar gyfer tir mawr Ewrop a Sgandinafia. Mae'r farchnad Americanaidd yn rhy foethus i'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig."
> Trefnydd teithiau o Sgandinafia (sydd hefyd yn gwasanaethu marchnad yr Unol Daleithiau)

Yn aml, mae trefnwyr teithiau sy'n chwilio am westai a chanddynt gapasiti digonol ar gyfer grwpiau mawr yn cael trafferth i ddod o hyd i westai o'r fath yng Nghymru.

> "Os ydych yn drefnydd teithiau, rydych angen gwesty gyda 30 neu 40 o ystafelloedd. Ni fyddech yn buddsoddi mewn creu pecyn ar gyfer gwesty Gwely a Brecwast â 6 ystafell. Rydych angen lle digon mawr. Nid yw lleoedd o'r fath i'w cael yng Nghymru."
> Trefnydd teithiau o'r Iseldiroedd

Hefyd, mae rhai trefnwyr teithiau o wledydd tramor yn cael anhawster i ddod o hyd i gyflenwyr llety yng Nghymru sy'n dymuno gweithio gyda'r diwydiant teithio. Mae rhai cyflenwyr yn gyndyn o gynnig cyfraddau masnach neu ddarparu polisïau 'canslo am ddim'.

> "Yn ddi-os, llety yw'r prif rwystr yng Nghymru. Mae'n well gennyf weithio gyda gwestai'n uniongyrchol, ond nid yw hyn bob amser yn bosibl. Nid ydynt yn gydnaws iawn â'r diwydiant teithio. Er mwyn creu pecynnau diddorol, rydych angen ffin elw. Os bydd gwestai'n mynnu codi'r gyfradd lawn, byddaf yn chwilio am rywbeth arall."
> Trefnydd teithiau o'r Iseldiroedd

## Diffyg ymwybyddiaeth o gyflenwyr

Mae trefnwyr teithiau'n dueddol o wybod am y prif glybiau a'r llety sydd ganddynt ar eu safle / gerllaw eu safle; ond, y tu hwnt i hynny, ceir diffyg ymwybyddiaeth. Gall gymryd amser ac ymdrech i drefnwyr teithiau ganfod darpar gyflenwyr a chysylltu â nhw, yn enwedig rhai sy'n fodlon gweithio gyda'r diwydiant teithio.

Dywedir nad yw Cymru'n mynd ati i hyrwyddo golff yn benodol, tra bod yr Alban ac Iwerddon yn trefnu digwyddiadau 'cyfarfod â phrynwyr' yn rheolaidd ar gyfer eu cyflenwyr golff, gan helpu prynwyr i greu cysylltiadau.

Yn ogystal â dod o hyd i'r darparwyr llety a'r clybiau golff iawn, mae rhai trefnwyr tramor angen dod o hyd i gludiant addas gan fod ymwelwyr yn gyndyn o yrru 'ar yr ochr anghywir o'r ffordd'; felly, rhaid trefnu cludiant. Nid gwaith hawdd yw dod o hyd i gludiant addas bob amser, a chaiff y broblem hon ei chysylltu â diffyg ymwybyddiaeth rhai trefnwyr o gyflenwyr yn gyffredinol, felly efallai nad ydynt wedi ymdrechu'n galed iawn i ddod o hyd i atebion.

> "Yr her fwyaf sy'n ein hwynebu yw cludiant. Nid yw Almaenwyr yn dymuno gyrru ar yr ochr anghywir o'r ffordd; maent angen cludiant. Nid oes gennym rwydwaith o gyflenwyr cludiant a all gludo pobl o feysydd awyr Bryste neu Gaerdydd i wahanol westai, neu a all fynd â nhw o gwmpas yr ardal yn ystod y trip."

Trefnydd teithiau o'r Almaen

### Dim digon o feysydd golff blaenllaw ar gyfer tripiau hwy

Os yw Cymru am ddenu tripiau hwy, yn enwedig o America, efallai y bydd nifer cyfyngedig y meysydd golff blaenllaw yn faen tramgwydd. Mae rhai trefnwyr teithiau o Ewrop hefyd yn nodi bod hyn yn rhwystr.

> "Oddi mewn i'r wlad, gallaf weld twf ar gyfer Cymru. Ond ni allaf weld cleientiaid o'r Unol Daleithiau'n dod draw gan nad oes digon o feysydd golff o'r radd flaenaf i'w cael yng Nghymru. Mae'r Americanwyr yn dod draw am o leiaf 7 noson a 5 rownd o golff. Ar ôl iddynt chwarae yng Nghlwb Golff Brenhinol Porthcawl, nid oes maes golff arall ar gael sydd ymhlith y 100 maes gorau drwy'r byd. Yn yr Alban, gallant chwarae ar bum maes golff, gyda phob un ymhlith y 100 maes gorau drwy'r byd."
> Trefnydd teithiau o'r DU (sy'n hefyd yn gwasanaethu'r farchnad a ddaw i mewn i Gymru)

### Diffyg prif chwaraewr blaenllaw

Mae Rory McIlroy, sef enillydd diweddar y Masters a chwaraewr a chanddo yrfa nodedig, yn ffigur blaenllaw ar gyfer hyrwyddo Gogledd Iwerddon fel cyrchfan golff. Ystyrir bod galw am golff yn y fan honno yn ffynnu. Ond gellir dadlau nad oes chwaraewr o safon fyd-eang wedi bod yng Nghymru ers Ian Woosnam.

## Beth yw'r cyfleoedd ar gyfer golff menywod?

### Dim rhwystrau mawr

Erbyn hyn, mae menywod yn cyfateb i gyfran helaeth o fusnes trefnwyr teithiau, yn enwedig trefnwyr o Sgandinafia a'r Almaen. Pur anaml y dônt ar draws rhwystrau wrth chwarae golff mwyach, megis cyfleusterau newid annigonol, yng Nghymru nac yn unman arall.

> "Pur anaml y clywn am rwystrau ar gyfer menywod mwyach. Dim byd fel 'dim ond yn y maes parcio y gall menywod newid'."
> Trefnydd teithiau o'r DU

### Mae'r pecyn yn bwysicach i fenywod

Un gwahaniaeth pwysig a gydnabyddir gan drefnwyr teithiau wrth farchnata ar gyfer menywod yw bod elfennau y tu hwnt i golff yn bwysicach i fenywod nag i ddynion – yn cynnwys pethau fel ansawdd y profiad bwyta ac ychwanegiadau posibl, fel sba a the prynhawn.

> "Mae sba yn rhan bwysig o'r pecyn cyffredinol. Syniad y peth yn fwy nag: ydyn nhw'n ei ddefnyddio mewn gwirionedd? Mae'r elfen fwyta'n bwysicach i grwpiau o fenywod o gymharu â grwpiau o ddynion. A gallwch gynnig pethau ychwanegol fel te prynhawn."
> Trefnydd teithiau o'r DU



Bethan Roberts, Maes Golff a Sba Machynys

## Pencampwriaeth Agored Menywod AIG

Mae trefnwyr teithiau'n teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â chynnal y Bencampwriaeth Agored i Fenywod yng Nghymru. Roedd y mwyafrif o drefnwyr teithiau'r DU ac Ewrop eisoes yn gwybod bod hyn yn digwydd yng Nghymru cyn i'r cwestiwn gael ei ofyn yn y cyfweliad; ond roedd ymwybyddiaeth trefnwyr teithiau o Unol Daleithiau America yn fwy cyfyngedig o lawer. Mae un trefnydd teithiau o'r DU yn defnyddio'r digwyddiad fel testun trafod wrth werthu De Cymru i gwsmeriaid.

> "Mae'n destun trafod ar y ffôn. Mae Clwb Golff Porthcawl yn glwb gwych i weithio gydag ef ac mae'n braf cael dweud ei fod yn gartref i'r Bencampwriaeth Agored i Fenywod … yn ddi-os, rydym yn sôn am hyn wrth siarad am ardal De Cymru gyda chwsmeriaid."
> Trefnydd teithiau o'r DU

Ond yn yr un modd â'r clybiau golff, dywed rhai trefnwyr teithiau fod angen i Gymru ddenu'r Bencampwriaeth Agored (i ddynion) os ydym am weld y wlad yn datblygu'n gyrchfan golff o bwys.

> "Mae tripiau i'r DU yn tueddu i gynnwys yr Alban, Iwerddon a Lloegr. Ni chaiff Cymru ei chynnwys ryw lawer. Mae Americanwyr yn dymuno chwarae ar feysydd golff y Bencampwriaeth Agored."
> Trefnydd teithiau o'r Unol Daleithiau

# Beth wnaiff annog trefnwyr teithiau i gynnwys Cymru i raddau mwy yn y dyfodol?

## Erys y cymhelliant yn nwylo Cymru

Yn gyffredinol, mae trefnwyr teithiau'n fodlon ystyried cynnwys Cymru (i raddau mwy), ond rhaid i'r cymhelliant ddod o du Croeso Cymru, yn enwedig os ydym am weld busnes o wledydd tramor yn tyfu. Yn syml, mae trefnwyr yn fodlon parhau i werthu cyrchfannau y ceir galw amdanynt ar hyn o bryd. Ceir elfen o ddiogi o ran trefnwyr teithiau'n ceisio sefydlu cyrchfannau newydd ar gyfer eu portffolio, ac o'r herwydd maent yn dymuno i Croeso Cymru a phartneriaid yng Nghymru wneud pethau'n hawdd iddynt.

Mae Cymru eisoes yn gwerthu'n dda ar gyfer trefnwyr teithiau yn y DU, ond mae rhai'n gweld potensial mawr i ddatblygu ac ymestyn y farchnad ddomestig ymhellach pe bai Croeso Cymru'n buddsoddi mewn trefniadau hyrwyddo ar y cyd â nhw.

> "Rydym yn cydweithio llawr gyda 'Tourism Ireland' ar sianeli marchnata … rhoddir lle blaenllaw i Gymru ar ein sianeli, oherwydd mae hynny'n esgor ar fanteision masnachol. Ond pe bai arian ar gael gan Gymru, byddai modd esgor ar gyfle enfawr i gynyddu nifer yr ymwelwyr."
> Trefnydd teithiau o'r DU

## Sioeau masnach a thripiau ymgyfarwyddo

Dywedodd nifer o drefnwyr teithiau bod yr Alban ac Iwerddon yn trefnu digwyddiadau llwyddiannus yn eu cyrchfan, sy'n dod â threfnwyr a chyflenwyr perthnasol ynghyd. Ym marn trefnwyr teithiau, dyma ffordd effeithiol iawn o gyflwyno cynhyrchion newydd. Yna, ar ôl y digwyddiadau, yr arfer yw cynnal tripiau i fynd i weld y meysydd golff a'r llety. Mae hyn yn rhoi hyder i drefnwyr teithiau greu pecyn a'i werthu'n argyhoeddiadol i gwsmeriaid.

> "Ar gyfer yr wythnos twristiaeth golff, mae 'Visit Scotland' yn dwyn ynghyd westai o wahanol ranbarthau, gwahanol lefelau o westai, gwahanol lefelau o feysydd golff, darparwyr cludiant. Maent yn cyflwyno pawb i wahanol agweddau ar y diwydiant twristiaeth golff."
> Trefnydd teithiau o'r Iseldiroedd

Hefyd, mae gan gyflenwyr a byrddau croeso sy'n cynrychioli'r Alban ac Iwerddon le blaenllaw mewn sioeau masnach a gynhelir mewn lleoliadau eraill.

Ond credir bod Cymru'n absennol o sioeau o'r fath. O'r herwydd, nid yw trefnwyr teithiau o'r farn eu bod yn gwybod ble i ddod o hyd i'r cyflenwyr iawn, yn enwedig gan nad yw nifer helaeth o gyflenwyr yn ateb eu negeseuon, ac nid oes ganddynt hyder i werthu Cymru i gwsmeriaid gan nad ydynt hwy eu hunain yn gwybod digon am y wlad a'r arlwy.

Yn ôl rhai trefnwyr teithiau o Unol Daleithiau America, dylai Cymru wahodd dylanwadwyr i ymweld â'r wlad – er enghraifft, cwsmeriaid blaenllaw a chanddynt ddylanwad i berswadio nifer o golffwyr i ymweld â'r lleoedd a argymhellir ganddynt.

> "Buaswn yn dod â rhai o 'nghleientiaid hollbwysig. Byddai hynny'n esgor ar enillion mwy, oherwydd mae ganddynt ddylanwad yn eu clybiau. Nhw sy'n gwneud penderfyniadau yn y clybiau preifat hyn."
> Trefnydd teithiau o'r Unol Daleithiau

Wedi dweud hyn, nid tasg syml yw trefnu digwyddiadau neu dripiau ymgyfarwyddo llwyddiannus. Mae rhai trefnwyr teithiau'n nodi nad yw'r mentrau hyn bob amser yn arwain at archebion, ac mae rhai ohonynt yn methu â dod o hyd i amser i'w mynychu, er y byddent yn dymuno gwneud hynny.

## Rhagor o fentrau


- Mae gweminarau'n gost-effeithiol ac yn effeithlon o ran amser i drefnwyr teithiau prysur.
- Hyrwyddo hanes golff yng Nghymru – mae gan Gymru hanesion diddorol i'w hadrodd.

# 5. Defnyddwyr

Seilir yr adran hon ar arolwg panel ar-lein a gynhaliwyd gyda 525 o ddefnyddwyr o Brydain ac Iwerddon sy'n mynd ar wyliau golff.

## Ystyried Cymru a chyrchfannau eraill

**Ffigur 1: C8 "Pa rai o'r cyrchfannau canlynol y byddech yn eu hystyried ar gyfer gwyliau golff – sef gwyliau a fyddai'n golygu aros dros nos a lle mai golff fyddai prif ddiben y trip?"**




Ar ôl y cwestiwn hidlo (C8) uchod, dim ond y rhai a atebodd 'yn bendant' neu 'efallai' a oedd yn gymwys ar gyfer gweddill yr arolwg.

## Rhoddir llai o ystyriaeth i Gymru o gymharu â chystadleuwyr cyfagos


Yn achos y rhai sy'n mynd ar wyliau golff, dywedodd ymron eu hanner (46%) y byddent yn ystyried mynd ar wyliau golff i Gymru. Roedd y gyfran a ddywedodd y byddent yn ystyried Cymru 'yn bendant' yn uwch ymhlith preswylwyr Prydain (48%) o gymharu â phreswylwyr Iwerddon (29%). Nid yw'r atebion yn amrywio rhyw lawer yn ôl rhywedd, oedran na math o barti.

Rhoddir mwy o ystyriaeth i ranbarthau cyfagos yr Alban, Iwerddon a Lloegr yn hytrach nag i Gymru, ac mae'r un peth yn wir hefyd am rai cyrchfannau tramor, yn arbennig Sbaen / ynysoedd Sbaen a Phortiwgal.

Fodd bynnag, mae 'ystyried' mynd ar wyliau ac 'archebu' gwyliau yn ddau beth gwahanol, ac mae gan Gymru fantais hollbwysig yn sgil y ffaith bodd mod cyrraedd y wlad yn rhwydd o'r rhan fwyaf o Loegr. Trafodir hyn yn fanylach yn nes ymlaen.

## Y cyrchfannau golff a ddewisir yn fwyaf mynych

**Ffigur 3: C10 “I ble ydych chi’n mynd ar wyliau golff yn fwyaf mynych”? (Ticiwch hyd at dri)**




### Mae’r atebion yn cyfateb i’r rhanbarth cartref


Ym mhob prif ranbarth preswylio (Cymru, Lloegr, yr Alban ac Iwerddon), rhanbarth cartref y golffwyr yw’r ateb mwyaf cyffredin a roddwyd i’r cwestiwn uchod. Felly, yn ogystal â mynd ar wyliau i gyrchfannau eraill o dro i dro, ymddengys fod mynediad rhwydd yn bwysig o ran troi diddordeb yn archebion. Nid yw’r atebion yn amrywio rhyw lawer yn ôl rhywedd, oedran na math o barti.

Ceir cyfrannau uwch o bobl a atebodd ‘Cymru’ ymhlith:

- Preswylwyr Cymru (42%)
- Preswylwyr Lloegr (12%) o gymharu â phreswylwyr yr Alban (4%)
- Menywod (17%) o gymharu â dynion (10%)

## Mynd ati i archebu

**Ffigur 6: C13: "Pa ffordd a ddefnyddiwch amlaf i archebu amseroedd chwarae yn ystod eich gwyliau golff?"**




### Cydbwysedd rhwng archebu'n uniongyrchol a defnyddio trefnwyr teithiau


Yn unol â'r hyn a ddywedodd clybiau golff, ceir cydbwysedd eithaf da rhwng archebu'n uniongyrchol gyda chlybiau ar y naill law a defnyddio trefnwyr teithiau i wneud archebion ar y llaw arall. Mae nifer o drefnwyr teithiau golff yn gwerthu gwyliau yn y DU, ond y ddau gwmni mawr yn y farchnad yw Your Golf Travel a Golfbreaks.com.

Mae'r atebion yn amrywio'n ôl oedran a rhywedd. Y rhai sydd fwyaf tebygol o archebu trwy gyfrwng trefnwyr teithiau yw:

- Menywod (57%) o gymharu â dynion (40%)
- Pobl dan 45 oed (54%) o gymharu â phobl dros 45 oed (38%)

## Mynd ar wyliau golff yng Nghymru

**Ffigur 8: C15: "Ydych chi wedi bod ar wyliau golff yng Nghymru erioed?"**



## Mae mynediad rhwydd yn bwysig


Yn gyffredinol, mae 56% o ddefnyddwyr wedi bod ar wyliau golff yng Nghymru. Mae'r atebion yn amrywio'n fawr yn ôl rhanbarth preswylio, ac mae'r tebygolrwydd o ddod i Gymru ar wyliau golff yn cyfateb yn gryf i'r agosrwydd at Gymru.

Rydych yn fwyaf tebygol o ddod o hyd i'r rhai a ddywedodd eu bod wedi bod ar wyliau golff yng Nghymru ymhlith:

- Menywod (68%) o gymharu â dynion (52%)
- Pobl dan 45 oed (70%) o gymharu â phobl dros 45 oed (48%)
- Cyplau (68%) o gymharu â grwpiau o gyfeillion (49%)

# Golff yng Nghymru o gymharu â chyrchfannau eraill

**Ffigur 9: C16 "Sut y mae gwyliau golff yng Nghymru yn cymharu â chyrchfannau eraill?"**




Gofynnwyd C16 i'r rhai a oedd wedi bod ar wyliau golff yng Nghymru

## Adborth cadarnhaol ynglŷn â Chymru

Mae oddeutu chwarter (27%) y rhai a fu ar wyliau golff yng Nghymru yn dweud bod y profiad yn 'llawer mwy pleserus' na golff mewn cyrchfannau eraill, ac mae 28% yn ychwaneg yn dweud bod y profiad 'rywfaint yn fwy pleserus'. Dim ond lleiafrif bach (5%) a ddywedodd fod golff yng Nghymru yn 'llai pleserus'.

Mae'r atebion yn amrywio'n fawr yn ôl rhywedd yr ymatebwyr, fel y dangosir uchod, ac roedd yr adborth a gafwyd gan fenywod yn llawer mwy cadarnhaol.

Mae'r gyfran sy'n disgrifio golff yng Nghymru fel 'llawer mwy pleserus' hefyd yn uwch ymhlith:

- Pobl dan 45 oed (48%) o gymharu â phobl dros 45 oed (8%)
- Cyplau (44%) o gymharu â grwpiau o gyfeillion (14%)

Mae maint y samplau yn ôl rhanbarth preswylio yn rhy fach i ddwyn cymariaethau dibynadwy.

## Y modd y mae Cymru'n llwyddo'n well na'r gystadleuaeth

Gofynnwyd i'r ymatebwyr sut y mae golff yng Nghymru, yn eu tyb nhw, yn cymharu â golff mewn cyrchfannau eraill. Isod, trafodir y prif elfennau cadarnhaol sy'n perthyn i Gymru.

### Golygfeydd godidog

Yn aml, lleolir meysydd golff wrth ymyl bryniau/mynyddoedd neu arfordiroedd hardd. Mae'r elfen hon yn rhan bwysig o'r profiad golffio, ac mae ymwelwyr blaenorol a phobl nad ydynt yn ymwelwyr, fel ei gilydd, o'r farn bod hyn yn elfen gadarnhaol hollbwysig i Gymru.

> "Ceir golygfeydd naturiol ac ysblennydd yng Nghymru, ac mae hynny mor bwysig i mi."
> Ymwelydd benywaidd, Dwyrain Canolbarth Lloegr, 25-34 oed

### Gwell gwerth am arian o gymharu â'r Alban, Iwerddon a De Ddwyrain Lloegr

Gan adleisio'r adborth a gafwyd gan drefnwyr teithiau, roedd nifer o ddefnyddwyr o'r farn bod Cymru'n cynnig gwell gwerth am arian o lawer o gymharu â'i phrif gystadleuwyr. Nid yw'r prisiau rhatach yn effeithio ar ansawdd meysydd golff Cymru. Ar y naill law, credir bod clybiau yn yr Alban ac Iwerddon yn codi prisiau uchel ar sail eu henw da clodfawr, gan fanteisio ar y farchnad Americanaidd yn arbennig, gan nad yw'r farchnad honno'n sensitif i brisiau. Ar y llaw arall, credir bod Cymru'n ddirodres.

> "Mae Cymru'n tueddu i fod yn fwy fforddiadwy na chyrchfannau blaenllaw fel yr Alban, Iwerddon neu'r Algarve. Yn aml, gallwch chwarae ar feysydd o safon ac aros mewn llety hyfryd heb orfod talu crocbris."
> Ymwelydd benywaidd, yr Alban, 25-34 oed

### Llai o dorfeydd o gymharu â chyrchfannau golffio enwocach

Er bod yr Alban, Iwerddon a rhannau o Loegr yn llawer enwocach am eu golff na Chymru, yr anfantais yn hyn o beth yw bod y meysydd golff yn gallu bod yn orlawn o dwristiaid. Gall hyn amharu ar y profiad dilys, ymlaciol.

Mewn cymhariaeth, mae naws fwy hamddenol yn perthyn i golff yng Nghymru. Mae hyn yn cyd-fynd â'r profiad ymlaciol y mae golffwyr yn chwilio amdano wrth chwarae'r gêm.

> "Ni cheir cynifer o dorfeydd yng Nghymru, felly mae'r profiad yn fwy ymlaciol."
> Ymwelydd benywaidd, Dwyrain Canolbarth Lloegr, 25-34 oed

### Elfennau cadarnhaol eraill sy'n perthyn i Gymru

- Rhai meysydd golff o safon fyd-eang, yn enwedig Porthcawl a'r Celtic Manor.
- Yn gyffredinol, ystyrir bod y meysydd golff yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.
- Rhai cyrchfannau moethus ar gyfer pobl sy'n chwilio am lety o'r radd flaenaf, yn ogystal ag amrywiaeth o lety pris canolig a phris rhesymol ar gyfer pobl sydd, yn syml, yn chwilio am le i gysgu.
- Lletygarwch cyfeillgar, di-lol pobl Cymru, sy'n ychwanegu at brofiad y gwyliau golff gan gynnig cyfle i ymlacio mewn lle gwahanol.
- Mae'n hawdd cyrraedd Cymru o'r rhan fwyaf o Loegr, felly mae Cymru'n llwyddo'n dda i droi diddordeb yn archebion.
- Hanes golffio cyfoethog, er ei fod yn llai enwog na hanes yr Alban.

> "Mae'r meysydd golff yn hynod hardd ac mae eu safon yn uchel. Mae'r prisiau'n cynnig gwerth da am arian ac mae'r clybiau golff yn groesawgar iawn."
> Ymwelydd gwrywaidd, Llundain, 55-64 oed

> "Mae pobl Cymru'n fwy dymunol na phobl Lloegr."
> Ymwelydd benywaidd, Gweriniaeth Iwerddon, 25-34

> "Llai o amser teithio i mi, felly gallaf fynd yn ôl adref yn gyflym os bydd yna broblem."
> Ymwelydd benywaidd, Gorllewin Canolbarth Lloegr, 55-64 oed

## Y modd y mae Cymru'n llwyddo i raddau llai na'r gystadleuaeth

### Tywydd anrhagweladwy a gwael yn aml

Mae'r tywydd yn rhwystr mawr i golff yng Nghymru. Mae hyn yn brofiad ymhlith ymwelwyr ac yn ganfyddiad ymhlith pobl nad ydynt yn ymwelwyr. Er bod modd chwarae golff yn y glaw, ni fyddent yn dewis gwneud hynny. Gall tywydd gwael amharu ar fwynhau gêm ymlaciol a golygfeydd hardd.

Go brin y gall rhannau eraill o Brydain ac Iwerddon hawlio enwogrwydd am dywydd braf, ond ymddengys fod gan Gymru, yn arbennig, enw drwg am dywydd glawog ymhlith defnyddwyr o Loegr. Ond yn anffodus, mae adborth sy'n sôn am deithiau golff i Gymru a ddifethwyd oherwydd y tywydd yn golygu bod hyn yn rhwystr gwirioneddol yn hytrach nag yn 'ganfyddiad' llwyr.

> "Roedd y profiad yn gyfwerth â gwledydd eraill rydw i wedi treulio gwyliau ynddynt, ond fe wnaeth y glaw amharu ar y golff braidd."
> Ymwelydd gwrywaidd, Llundain, 55-64

## Dim cymaint o feysydd golff enwog / o'r radd flaenaf

Er bod Clwb Golff Brenhinol Porthcawl a'r Celtic Manor yn feysydd golff blaenllaw sy'n denu ymwelwyr, credir na cheir digon o feysydd golff enwog eraill i ategu'r arlwy, yn enwedig y tu hwnt i Dde Ddwyrain Cymru.

> "Nid yw Cymru'n enwog am glybiau golff, ond rydw i'n fodlon rhoi cynnig ar Gymru os bydd amser yn caniatáu ac os bydd fy nghymdeithion yn fodlon hefyd."
> Ymatebydd gwrywaidd nad oedd yn ymwelydd, Dwyrain Lloegr, 35-44 oed

## Diffyg ymwybyddiaeth o golff yng Nghymru

Ymhlith pobl nad ydynt yn ymwelwyr, ceir diffyg ymwybyddiaeth o arlwy golff Cymru. Golyga hyn eu bod, y tu hwnt i lefel arwynebol, yn dyfalu beth fyddai'r arlwy golff, felly mae unrhyw ddiddordeb a ddangosir yng Nghymru yn tueddu i fod yn wan. Mae angen 'denu' mwy ar bobl er mwyn cryfhau eu diddordeb.

## Diffyg cyffro o bosibl

Yn ôl rhai golffwyr (rhai sydd wedi ymweld â Chymru a rhai nad ydynt wedi ymweld â'r wlad), nid oes ganddynt unrhyw deimladau negyddol tuag at Gymru fel cyrchfan golff; ond maent o'r farn nad yw'r posibilrwydd o ddod i Gymru i chwarae golff yn cynnig digon o gyffro, yn enwedig o gymharu â mynd dramor.

## Gallai'r tir bryniog beri anawsterau i chwarae golff

Gwyddys fod Cymru'n wlad fryniog a mynyddig. Mae hyn yn digalonni rhai pobl nad ydynt wedi ymweld â Chymru, oherwydd credant y gallai'r tir beri anawsterau iddynt wrth chwarae golff. Mae pobl eraill o'r farn fod yr her hon yn rhywbeth cadarnhaol.


## Fel arall, mae nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod y profiad golffio yng Nghymru yn gymaradwy â gweddill Prydain ac Iwerddon

Ar wahân i'r rhwystrau a nodir uchod, mae nifer o golffwyr (rhai sydd wedi ymweld â Chymru a rhai nad ydynt wedi ymweld â'r wlad) o'r farn bod arlwy Cymru'n gymaradwy â gweddill Prydain ac Iwerddon. Gellir golygu hyn mewn ffordd gadarnhaol neu lugoer.

> "Yn yr Alban y lleolir fy hoff faes golff, ac mae Cymru'n gyfartal yn hyn o beth. Roedd y meysydd golff mor drawiadol."
> Ymwelydd gwrywaidd, De Ddwyrain Lloegr, 35-44 oed

## Gwneud gwyliau golff yn fwy atyniadol i fenywod

**Ffigur 12: C23: "Beth, os o gwbl, yr hoffech weld clybiau golff yn ei wneud er mwyn gwneud gwyliau golff yn fwy atyniadol i fenywod?" (Gydag anogaeth)**




Gofynnnwyd C23 i fenywod

## Mae'r mwyafrif o fenywod o'r farn bod angen gwella'r apêl

Er bod clybiau golff a threfnwyr teithiau, ar y cyfan, o'r farn bod yr arlwy ar gyfer menywod yn gyfartal â'r arlwy ar gyfer dynion erbyn hyn, ac nad oes angen datblygu rhyw lawer mwy arno, mae golffwyr benywaidd yn dal i gredu y gellir gwneud rhagor.

Mae golff ar y cyd â gwyliau sba yn apelio at nifer o fenywod, a chaiff hyn ei ategu gan adborth a gafwyd gan drefnwyr teithiau. Mae rhai clybiau y cynhaliwyd cyfweliad gyda nhw yng nghanol y broses o adeiladu llety ar eu safle, neu maent yn ceisio cael caniatâd cynllunio ar gyfer llety, toiledau ar feysydd golff a thai hanner ffordd.

# 6. Goblygiadau i Croeso Cymru a phartneriaid eraill

## A ddylai Croeso Cymru a phartneriaid eraill fuddsoddi mewn twristiaeth golff?

Ceir achos cryf dros fuddsoddi yn y gwaith o hyrwyddo a datblygu twristiaeth golff yng Nghymru:

- Mae clybiau yng Nghymru wedi ymrwymo i ddenu ychwaneg o ymwelwyr; mae ganddynt gapasiti yn ystod y misoedd pan mae ymwelwyr yn dymuno dod yma.
- Mae gan Gymru gyfle clir i 'ddwyn' cyfran o'r farchnad oddi ar yr Alban ac Iwerddon, gan fod Cymru'n cynnig gwell gwerth am arian o lawer.
- Ystyrir bod cynnyrch golff Cymru'n ddigon da eisoes ar gyfer marchnadoedd y DU ac Ewrop, ac mae ymwelwyr yn ei ganmol; yr hyn sy'n ddiffygiol yw ymwybyddiaeth o'r arlwy.
- Dengys ymchwil eilaidd fod ymwelwyr golff a ddaw i Gymru yn gwario mwy ar gyfartaledd ar dripiau undydd o gymharu ag ymwelwyr sy'n ymhél â gweithgareddau awyr agored o fath arall.
- Mae golff yn denu ymwelwyr yn ystod tymhorau ysgwydd y gwanwyn a'r haf pan mae cyfraddau llety'n is.

Un ystyriaeth hollbwysig yw'r modd y mae twristiaeth golff yn cymharu â chynhyrchion eraill a gaiff eu hadolygu ar hyn o bryd gan Croeso Cymru.

## Pa farchnadoedd daearyddol y dylid eu targedu?

Pe bai Croeso Cymru'n penderfynu buddsoddi mwy yn y gwaith o hyrwyddo twristiaeth golff, y tair prif farchnad ddaearyddol y dylid eu hystyried yw marchnad y DU, y farchnad Ewropeaidd a'r farchnad Americanaidd.

Ceir achos cryf dros dargedu'r DU. Eisoes, mae Cymru'n gwerthu'n dda ar gyfer y farchnad hon, ac mae clybiau a threfnwyr teithiau o'r farn y gellir ennill cyfran fwy ohoni. Mae mynediad rhwydd o'r rhan fwyaf o Loegr yn 'bwynt gwerthu unigryw' i Gymru uwchlaw'r holl gystadleuwyr eraill, ac eithrio Lloegr ei hun.

Oddi mewn i farchnad y DU, nid yw Cymru'n wynebu rhai rhwystrau a ddaw i ran marchnadoedd tramor, megis mynediad at deithiau hedfan a diffyg meysydd golff blaenllaw niferus ar gyfer tripiau hir, a hefyd mae llety yn llai o broblem.

Mae Ewrop hefyd yn cynnig cyfle; ond er mwyn targedu'r farchnad hon, byddai angen llawer mwy o adnoddau, oherwydd mae angen goresgyn diffyg ymwybyddiaeth mawr o gymharu â marchnad y DU. Hefyd, ceir diffyg ymwybyddiaeth ymhlith trefnwyr teithiau o ran pwy y dylid gweithio â nhw a sut i gyrraedd Cymru.

Fodd bynnag, ymddengys fod arlwy golff Cymru'n bodloni anghenion golffwyr Ewrop: mae golffwyr Ewrop yn gallu bod braidd yn sensitif i brisiau; fel arfer, nid ydynt angen lety moethus ac nid ydynt yn chwilio am lety o'r fath; ac maent yn gwerthfawrogi harddwch naturiol a threfi hen ffasiwn Cymru. Ymddengys fod marchnadoedd yr Almaen a Sgandinafia, yn arbennig, yn cyd-fynd yn dda â Chymru.

Gwaith anodd ar hyn o bryd fyddai targedu'r farchnad Americanaidd. Mae gormod o wendidau'n perthyn i'r cynnyrch, yn cynnwys prinder meysydd golff o'r radd flaenaf ar gyfer tripiau hir a diffyg llety moethus o'r radd flaenaf. Ychwaith, ni fyddai 'pwynt gwerthu unigryw' Cymru – sef gwerth gwych am arian o gymharu â'r Alban ac Iwerddon – yn gweithio cystal ar gyfer y farchnad hon. Gall nifer o golffwyr Americanaidd fforddio talu prisiau uchel a chânt bleser o allu dweud eu bod wedi chwarae ar feysydd golff eiconig.

Wrth gwrs, nid yw hyn yn golygu na all Cymru ddenu golffwyr o America. Mae rhai meysydd golff eisoes yn llwyddo i wneud hyn. Ond ymddengys fod yr adenillion ar fuddsoddi yn llai sicr nag ar gyfer marchnadoedd sydd eisoes yn cyd-fynd yn dda â Chymru.

## Y farchnad ar gyfer menywod

Mae golffwyr benywaidd sy'n ymweld â Chymru yn sôn yn ffafriol iawn am y gyrchfan o gymharu â chyrchfannau golff eraill. Yn amlwg, mae yna gyfle i dargedu'r farchnad hon, gan ddefnyddio'r Bencampwriaeth Agored i Fenywod fel sbardun.

## Denu'r Bencampwriaeth Agored i Ddynion

Mae denu'r Bencampwriaeth Agored i Fenywod yn fan cychwyn da, ond mae angen i Croeso Cymru a phartneriaid eraill ystyried sut y gallai Cymru ddenu'r Bencampwriaeth Agored i Ddynion hefyd. Byddai hyn yn arwain at wella ymwybyddiaeth golffwyr o Gymru fel cyrchfan wirioneddol ddichonadwy ar gyfer twristiaeth golff.

## A oes angen cymorth ar gyfer cynnyrch golff newydd?

Mae rhai clybiau'n mynd i'r afael â phrosiectau datblygu cyfalaf neu'n ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer prosiectau o'r fath. Ymddengys eu bod yn graff o ran canfod cyfleoedd ac nad oes angen dweud wrthynt pa gynnyrch i'w ddatblygu. Fodd bynnag, efallai y byddai strategaeth golff gyffredinol ar gyfer Cymru yn helpu clybiau i gyflwyno achosion busnes ar gyfer buddsoddi ac yn helpu awdurdodau lleol i ddenu datblygwyr, e.e. lle ceir bylchau yn y cynnyrch llety.

## Dod â chyflenwyr ynghyd

Mae yna rôl i Croeso Cymru o ran dod â chyflenwyr ynghyd: clybiau golff sy'n awyddus i ddenu ymwelwyr, darparwyr llety sy'n fodlon gweithio gyda'r diwydiant teithio, a gweithredwyr cludiant. Wrth dargedu marchnadoedd oddi allan i Gymru, yn enwedig marchnadoedd tramor, mae cyflenwyr yn tueddu i weld ei gilydd fel partneriaid yn hytrach na chystadleuwyr. Gwyddant y bydd modd iddynt gyflawni llawer mwy trwy weithio gyda'i gilydd, oherwydd gellir annog ymwelwyr i aros yn hwy a chwarae ar amryfal feysydd golff.

Byddai pob rhan o Gymru'n elwa ar gael y canlynol: rhestrau o ba feysydd golff y gellir chwarae arnynt ar ba ddiwrnodau (gan ystyried pryd y bydd pob maes golff yn debygol o fod yn llai prysur), rhestrau o leoedd aros, a gwybodaeth am sut i deithio. Os targedir y farchnad ar gyfer menywod, dylai opsiynau llety gynnwys sefydliadau a chanddynt sba a chyfleusterau bwyta o safon dda.

## Hyrwyddo'n uniongyrchol i ddefnyddwyr ynteu trwy gyfrwng trefnwyr teithiau?

Ar gyfer marchnad y DU, gellid hyrwyddo Cymru trwy gyfrwng y naill sianel neu'r llall, felly gellid seilio'r penderfyniad ar y costau perthynol a'r adenillion disgwyliedig. Gan fod oddeutu hanner y busnes yn dod trwy gyfrwng trefnwyr teithiau ar hyn o bryd, a chan fod y rhan fwyaf ohono'n dod o du llond llaw o gwmnïau hollbwysig, ymddengys fod y dull hwn yn llwybr cost-effeithiol o gyrraedd y farchnad. Mae Cymru'n gwerthu'n dda ar gyfer trefnwyr domestig, ac o'r herwydd maent yn debygol o groesawu'r cyfle i weithio gyda Croeso Cymru er mwyn datblygu mwy fyth ar y gyrchfan.

Ar gyfer y farchnad dramor, mae ymwelwyr yn fwy tebygol o wneud trefniadau trwy ddefnyddio trefnwyr teithiau, felly ymddengys fod y dull hwn yn llwybr amlwg at y farchnad.

## Sut y dylai Croeso Cymru weithio gyda threfnwyr teithiau?

Mae gan Croeso Cymru rôl o ran dod â phrynwyr a chyflenwyr ynghyd. Nid yw prynwyr, yn enwedig prynwyr o wledydd tramor, yn ymwybodol iawn o arlwy Cymru y tu hwnt i rai cyrchfannau a meysydd golff enwog. Mae angen cynnal tripiau ymgyfarwyddo a digwyddiadau 'cyfarfod â phrynwyr' yng Nghymru.

Hefyd, mae trefnwyr teithiau'n cynnal ymgyrchoedd marchnata ar y cyd â chyrchfannau eraill, ac maent yn fodlon ystyried gwneud hyn gyda Chymru.

## Beth yw’r prif negeseuon hyrwyddol?

Ar gyfer marchnad y DU:

- Mae meysydd golff Cymru, a gaiff eu cynnal a’u cadw’n dda, o fewn cyrraedd rhwydd o’r rhan fwyaf o Loegr.
- Chwarae golff ymlaciol yng nghanol golygfeydd naturiol godidog, o gyrraedd torfeydd.
- Gwerth dihafal am arian o gymharu â chyrchfannau golff eraill.
- Cyrchfannau golff sy’n gydnaws â menywod, lle ceir cyfleusterau priodol, llety sba, profiad bwyta o’r radd flaenaf ac etifeddiaeth y Bencampwriaeth Agored i Fenywod.

Ar gyfer y farchnad Ewropeaidd, mae’r negeseuon yr un fath ac eithrio’r pwynt cyntaf:

- Mae’n hawdd cyrraedd Cymru o feysydd awyr Caerdydd, Bryste, Birmingham, Lerpwl a Manceinion.